**Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

**Ieuenctid Mewn Cymdeithas**

**Dogfennau o Bwysigrwydd Hanesyddol**

**Darnau allan o Adroddiad Albemarle**

# Y GWASANAETH IEUENCTID YN LLOEGR A CHYMRU

Adroddiad y Pwyllgor a Benodwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd 1958

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Gweinidog Addysg trwy Orchymyn Ei Mawrhydi, Chwefror 1960

**CYFLWYNIAD**

1. Penodwyd y Pwyllgor gan y Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd, 1958. Cawsom y cylch gorchwyl canlynol: "Adolygu'r cyfraniad y gall Gwasanaeth Ieuenctid Lloegr a Chymru ei wneud i gynorthwyo pobl ifanc i chwarae eu rhan ym mywyd y gymuned, yng ngoleuni'r newidiadau cymdeithasol a diwydiannol a'r tueddiadau presennol mewn canghennau eraill o'r gwasanaeth addysg; a chynghori ar ba flaenoriaethau y gellir eu defnyddio er mwyn cael gwerth gorau am yr arian a werir".

2. Fe'n penodwyd ar yr adeg fwyaf allweddol. Yn gyntaf, oherwydd bod sawl agwedd ar ein bywyd cenedlaethol, y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arbennig o berthnasol iddynt, erbyn hyn yn destun pryder helaeth a difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys problemau byrdymor difrifol, megis yr 'ymchwydd' ym mhoblogaeth arddegwyr. Maen nhw hefyd yn cynnwys elfennau o newid cymdeithasol sy'n llawer mwy cymhleth a pharhaus, y mae arddegwyr yn ymateb yn eithafol iddynt ac mewn ffyrdd sy'n ymddangos yn syndod ac annifyr i oedolion. Yn ail, oherwydd y daeth yn amlwg inni'n fuan iawn fod y Gwasanaeth Ieuenctid ei hun mewn cyflwr difrifol. Fe'n synnwyd gan unfrydedd y dystiolaeth gan dystion (ac fe gadarnhawyd eu sylwadau gan ein harsylwadau ninnau) ar y pwyntiau hyn:

(i) bod y Gwasanaeth Ieuenctid mewn cyflwr o iselder difrifol ar hyn o bryd. Ar draws y wlad ac ym mhob rhan o'r Gwasanaeth mae gweithwyr ymroddedig. Ac mewn rhai ardaloedd, mae ysbrydoliaeth unigolion neu fudiadau eithriadol, neu anogaeth awdurdodau addysg lleol, wedi cynnal ysbryd yn anarferol o uchel. Ond yn gyffredinol teimlwn ei bod yn wir dweud fod pobl sy'n gweithio yn y Gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu hesgeuluso ac mai ychydig o barch a roddir iddynt, mewn cylchoedd addysgol a chan y cyhoedd yn gyffredinol. Dywedwyd wrthym dro ar ôl tro fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn 'marw ar ei draed' neu'n 'cael ei anwybyddu'n llwyr'. Yn wir, awgrymwyd inni fwy nac unwaith fod penodi ein Pwyllgor ni naill ai'n 'ddarn o wyngalchu' neu'n ymgais i ddod o hyd i resymau i 'ladd' y Gwasanaeth. Mae'r rhain yn sylwadau annifyr, ond teimlwn fod rhaid eu cofnodi gan eu bod yn adlewyrchiad cywir o ddyfnder y teimlad ymhlith llawer o'r bobl sy'n gweithio yn y Gwasanaeth; priodol felly yw eu bod yn cael eu deall ar ddechrau ein Hadroddiad yn deg. Ni all unrhyw Wasanaeth wneud ei waith gorau mewn awyrgylch o'r fath.

(ii) nad oedd ein tystion wedi'u digalonni mewn unrhyw ffordd ynghylch gwerth sylfaenol y Gwasanaeth. Rhoesant yr argraff bendant inni (ac fe gefnogwyd hynny dro ar ôl tro gan ein harsylwadau ein hunain) fod Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cael y gefnogaeth angenrheidiol yn sylfaenol bwysig a gwerthfawr; a'i fod o bwys arbennig mewn cymdeithas sy'n wynebu'r mathau o newidiadau a nodwyd uchod ac a ddisgrifiwn yn ddiweddarach.

3. Buom felly'n cyfarfod mewn sefyllfa sy'n galw am ymateb anarferol o brydlon a chan deimlo ein bod yn gweithio'n groes i lif amser. O'r herwydd nid ydym wedi cynnal unrhyw brosiectau ymchwil o unrhyw faint mewn maes sy'n un eang iawn. Gellir cynnal astudiaethau o'r fath unwaith y sefydlwyd y prif gyfiawnhad dros fodolaeth y Gwasanaeth a'r nodau pennaf sydd ganddo. Yn wir, gwnaed nifer o ymholiadau'n barod, ond heb iddynt arwain at fawr ddim o ran gweithredu cadarnhaol. Unwaith eto, gobeithiwn y bydd ein datganiad o egwyddorion a pholisi yn caniatáu'r ymholiadau cynharach hyn, rhai ohonynt yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, i gael eu defnyddio wrth geisio gwella Gwasanaeth Ieuenctid adfywiedig.

4. Yn fyr, rydym wedi meddwl am ein hunain fel pwyllgor siartio ac wedi ceisio, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â thrylwyredd a chynwysfawredd, mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol: sefydlu lle'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y darlun cymdeithasol ac addysgol ehangach; llwybro cwrs dymunol; ac amlinellu'r camau hynny (yn y tymor byr a hir) fydd orau i roi i'r Gwasanaeth cyfan y galon newydd y mae cymaint ei hangen arno.

5. Mae'r penodau sy'n dilyn yn rhannu'n dri phrif grŵp.

Yn gyntaf, wedi arolygu hanes, rhychwant a chyfyngiadau presennol y Gwasanaeth (Pennod 1), rydym yn adolygu'r sefyllfa newydd ac yn ceisio asesu effaith y newidiadau hynny ar bobl ifanc (Pennod 2). Awn ati wedyn i ail-ddatgan y cyfiawnhad cymdeithasol ac unigol dros y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae Pennod 2, Rhan II a Phennod 3 yn cynnwys ein meddylfryd sylfaenol ar anghenion, nodau ac egwyddorion.

Yn ail, rydym wedi ceisio adeiladu ar y sylfaen hwn y fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid fydd yn ddigonol ar gyfer anghenion pobl ifanc. Rydym felly wedi llunio tasgau'r gwahanol bartneriaid yn y Gwasanaeth (Pennod 4) gan awgrymu'r cyfleoedd, gweithgareddau a chyfleusterau y bydd angen eu darparu (Pennod 5).

Yn drydydd, rydym yn archwilio a phwysleisio'r cyfrifoldebau sy'n dilyn o'n hail-ddiffiniad o rychwant y Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn cyflwyno ein hargymhellion penodol (Penodau 6-10).

6. Fe welir yn gyflym iawn ein bod yn credu fod angen cryn ehangu ar y ddarpariaeth a wneir ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Ni fydd dim llai'n gwneud y tro, ar adeg pan ddylai fod wedi bod yn derbyn anogaeth eithriadol, caniatawyd i'r Gwasanaeth golli hyder yn araf bach. Felly, mae angen dau fath o weithredu:

(i) 'trallwysiadau gwaed'; hynny yw, camau byrdymor i gwrdd ag anghenion dybryd (e.e. problem yr 'ymchwydd'). Efallai y bydd angen gwariant brys ar gyfer y rhain;

(ii) camau fydd yn arwain at gynhaliaeth gynaliadwy a pharhaus.

7. Argymhellwn y dylid darparu ar gyfer datblygiad cynllunedig dros ddau gyfnod o bum mlynedd o dan oruchwyliaeth Cyngor Datblygu. Byddai'r prif bwyslais yn y pum mlynedd cyntaf ar (i). Credwn fod yr holl gamau hyn yn angenrheidiol a brys. Ond mae'n bwysig peidio annog gobeithion gormodol. Mae 'problemau ieuenctid' wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym mhridd byd cyfoes cythryblus. Byddai disgwyl i hyd yn oed y Gwasanaeth Ieuenctid gorau ddatrys y problemau hyn yn cael ei weld fel rhyw fath o feddyginiaeth a gyflwynwyd ar frys.

## ASESIAD O'R GWASANAETH IEUENCTID

32. Rydym wedi cynnal adolygiad byr o hanes y Gwasanaeth Ieuenctid, y peirianwaith sy'n ei gynnal, ei gost a'i nodau presennol. Deuwn yn awr at y dasg anoddach o adolygu ei berfformiad yn y blynyddoedd diwethaf ac i asesu ei allu i gynnal y baich a ragwelwn ar ei gyfer.

33. Yn gyntaf oll, cynhaliwyd y Gwasanaeth Ieuenctid trwy gydol cyfnod anodd, pan fu'r galw ar adnoddau'r wlad yn drwm iawn. Er y cymerwyd camau breision mewn meysydd eraill, yn y sector hwn llwyddwyd o leiaf i ddal tir. Heb y gwaith dal tir hwnnw, ni fyddai gennym Wasanaeth Ieuenctid i'w drafod. Cafodd pencadlysoedd y prif fudiadau gwirfoddol ddigon o gymorth i allu datblygu rhyw gymaint ar eu gwaith; ac yn lleol, er y llwyddodd ambell ardal i sefydlu Gwasanaeth o'r math a ragwelwyd yn y cylchlythyron cynnar, llwyddodd y rhan fwyaf i ddarparu cnewyllyn o glybiau a chanolfannau i gwrdd ag anghenion cynyddol pobl ifanc. Yn gyffredinol, cynyddodd awdurdodau addysg lleol eu gwariant ar y Gwasanaeth, ac ar y cyfan mae eu swyddogion neu eu trefnwyr ieuenctid wedi rhoi gwybod iddynt am yr anghenion mwyaf dybryd. Gall rhai gyfeirio at gyflawniadau o bwys: mae eraill wedi cynllunio seiliau y bydd yn hawdd adeiladu arnynt pan geir y cyfle. Rhoddwyd cynnig ar arbrofion diddorol, gan awdurdodau a chyrff gwirfoddol. Yn gyffredinol, diolch i arian cyhoeddus, haelioni preifat, a chymorth amserol ymddiriedolaethau, a diolch yn fwy fyth i adnoddau ac ymroddiad nifer fawr o weithwyr

gwirfoddol a mintai fechan o unigolion cyflogedig (a rheiny'n aml yn gyflogau bach), gwnaed darpariaeth o ryw fath ar gyfer anghenion un person ifanc o bob tri rhwng 15 a 21.

34. Rydym wedi cyfeirio at weithwyr gwirfoddol, a phriodol yma yw cyfeirio at bwysigrwydd mawr yr egwyddor gwirfoddol yn y Gwasanaeth. Mae'n ymddangos inni mai presenoldeb gwirfoddol a chymorth gwirfoddol yw ei brif gryfderau. Mae presenoldeb gwirfoddol yn bwysig gan ei fod yn cynnig rhyddid a dewis oedolion. Mae cymorth gwirfoddol yr un mor bwysig. Mae llawer iawn o bobl yn fodlon rhoi eu hamser i gyfarfod a siarad â phobl ifanc, ac i helpu gyda gweithgareddau grwpiau, clybiau a chanolfannau ieuenctid. Mae'r cymhellion sydd wedi'u harwain i gyfrannu at waith y Gwasanaeth yn amrywiol, ond fe'n trawyd gan y consyrn gwirioneddol am bobl ifanc a'r awydd i'w helpu, doed a ddelo, sy'n nodweddiadol o'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gwirfoddol hyn. Mae'n hollbwysig fod pobl ifanc yn deall fod llawer o'r genhedlaeth hŷn yn wirioneddol awyddus i wneud ffrindiau a rhannu eu diddordebau.

35. Dyna ddigon am gryfderau'r Gwasanaeth fel y mae ar hyn o bryd. Cawsom wybod lawn gymaint am ei gyfyngiadau a'i wendidau; o ran polisi, peirianwaith, a pherfformiad. Gan fod llawer o'r gwendidau y sylwasom arnynt yn y maes hwn yn deillio o'r cyfyngiadau ariannol cyson a'r diffyg datblygu sy'n deillio o hynny, rhaid edrych yn gyntaf ar y polisi a'r peirianwaith ar gyfer ei weithredu.

36. Rydym wedi cyfeirio at bwysigrwydd rôl y Gweinidog yn ffurfio polisi cenedlaethol a llywio datblygiad y Gwasanaeth Ieuenctid. Rhoddwyd blaenoriaeth isel i'r rhan hon o'i gyfrifoldebau ers peth amser: yn ystod y deng mlynedd i fyny at ddiwedd 1958 nid yw'r Weinyddiaeth wedi cyhoeddi'r un cylchlythyr yn ymwneud yn unig â'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn ystod yr un cyfnod cafwyd deg cylchlythyr a effeithiodd arno mewn ryw ffordd; roedd pob un ohonynt yn ymwneud â gwariant addysgol a gorfododd saith ohonynt gyfyngiadau (cynigiodd y tri arall y dylid llacio rhyw ychydig ar gyfyngiadau blaenorol). Nid yw'n syndod felly fod y diffyg anogaeth yma wedi tarfu ar fomentwm lansio'r Gwasanaeth a'i fod wedi bradychu gobeithion uchel y sawl a gredai ynddo.

38. Nid oes angen inni gwestiynu penderfyniadau am flaenoriaethau gwariant cenedlaethol a gymerwyd gan un Llywodraeth ar ôl y llall ers y rhyfel; ond rhaid cyfeirio at y canlyniadau fel yr effeithiasant ar y Gwasanaeth Ieuenctid. Yn gyntaf, methodd y Gweinidog â chyflawni'n effeithiol ei gyfrifoldeb o arwain awdurdodau addysg lleol yn y gwaith o ddatblygu polisi ac o sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 1944, gan na fu modd iddo ryddhau'r arian y byddai ei angen i weithredu gofynion y Ddeddf. Yn ail, ni chafodd y peirianwaith ar gyfer cymorth grant uniongyrchol y Weinyddiaeth, y cyfeiriwyd ato uchod, fyth ei ddatblygu: mae'r system yn glytwaith a cheir anghysondebau amlwg y dylid cael gwared â nhw. Mewn gwirionedd, prin y bu rhai o'r grantiau diweddar yn ddigonol i alluogi'r mudiadau i gyflawni eu gwaith sylfaenol, ac roedd yn annigonol i leddfu eu gofid cronig, di-ddiwedd.

39. Yn wyneb y rhwystrau hyn nid yw'n syndod pan ddeuwn i archwilio cyfraniad y partner nesaf i'r

Gwasanaeth Ieuenctid, yr awdurdodau addysg lleol, y gwelwn ddarlun o ddatblygu hytrach yn fratiog. Yn naturiol, gan fod rhaid i'r awdurdodau hyn lunio polisïau sy'n gweddu i anghenion lleol, mae'n rhwym y bydd gwahaniaethau o ran system neu ddynesiad rhwng un ardal ac un arall: ond pan mae'r gwahaniaethau hynny yn fater o effeithlonrwydd, gallent adlewyrchu difaterwch rhai awdurdodau neu awgrymu eu bod wedi colli hyder yn y Gwasanaeth. Nid oes gan rai awdurdodau pwysig unrhyw bwyllgor ieuenctid na swyddog ieuenctid. Hyd yn oed yn yr awdurdodau sy'n rhoi gwerth ar y Gwasanaeth, ceir amrywiadau annisgwyl yn y ffordd yr ânt ati i'w ddarparu. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r amrywiadau hyn i safbwyntiau gwahanol awdurdodau am eu perthynas gyda chyrff gwirfoddol ac i ba raddau y dylid cynnwys y mudiadau hynny yn yr ymgynghoriad. Ar un eithaf mae'r rhai sy'n gwario'r rhan fwyaf o'u harian ar eu clybiau a'u canolfannau eu hunain, ac ar y pegwn arall mae'r rhai sy'n gadael y ddarpariaeth yn gyfan gwbl i'r mudiadau gwirfoddol gyda chymorth grantiau cymharol hael. Canlyniad hyn oll yw nad oes unrhyw isafswm cytunedig o wasanaethau y gall cyrff gwirfoddol o bwys eu disgwyl yn ddi-gwestiwn gan bob awdurdod.

40. Yn olaf, rhaid edrych ar gyfyngiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y maes, boed y gwaith yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol neu gyrff gwirfoddol. Yn y lle cyntaf, rhaid cyfeirio at un methiant cyffredinol. Rydym wedi edrych am amrywiaeth dulliau a pharodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd, i addasu ffyrdd cyfarwydd o weithio i anghenion newydd pobl ifanc, ac i chwilio am grwpiau newydd sydd angen cymorth. Mae amrywiaeth mawr o fudiadau yn gweithio yn gwasanaethu pobl ifanc: heblaw am y cyrff gwirfoddol cenedlaethol mae nifer fawr o glybiau a gweithgareddau lleol a ddarperir gan Eglwysi, awdurdodau addysg lleol a grwpiau annibynnol. Yn naturiol, gwelwyd rhyw gymaint o amrywiaeth dulliau, ond mae llai o barodrwydd i dorri tir newydd nag y byddem wedi gobeithio'i weld. Yr un yw'r math o fachgen neu ferch y tueddir i anelu ato neu ati. Efallai bod cysylltiad rhwng y diffyg hwn â rhai o'r gwendidau eraill yn y Gwasanaeth Ieuenctid cyfoes y mae'n rhaid inni gyfeirio atynt.

41. Mae diffyg arian wrth wraidd llawer o'r diffygion y cyfeiriasom atynt; mae clybiau'n aml yn gorfod gweithio mewn adeiladau diflas, dinod; diffyg offer ar gyfer y gwaith; darpariaeth annigonol ar gyfer gweithgareddau awyr agored; a methiant i ddarparu ar gyfer anghenion trefi a stadau tai newydd, a grynhowyd yn sylw bachgen a ddisgrifiodd un o'r stadau hynny yn 'fynwent gyda goleuadau'.

42. Mae arweinyddiaeth yn y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi dioddef o ddiffyg arian a phrinder anogaeth. Mae arweinwyr yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi na'u gwerthfawrogi: maen nhw'n chwilio am ryw arwydd fod eu gwaith yn cael ei gydnabod yn bwysig yn genedlaethol, ond nid ydynt yn ei ganfod mewn datganiadau polisi swyddogol nac yng nghydnabyddiaeth graddfa gyflog i weithwyr llawn-amser fyddai'n eu rhoi ar lefel gyffelyb i broffesiynau cytras. Maen nhw'n ymddangos yn eu golwg eu hunain o fod mewn perygl o golli pob cysylltiad â phrif ffrwd datblygiadau cymdeithasol ac addysgol. Ac mae cryn dystiolaeth fod swyddi llawn-amser yn methu denu ymgeiswyr da.

43. Credwn fod ffactor arall yn dod i'r golwg yma: hynny yw, y methiant i gynnig strwythur boddhaol ar gyfer gwasanaeth proffesiynol sydd yn ei hanfod yn achlysurol yn hytrach nac yn yrfa oes; mae recriwtio'n dal yn fratiog, ni chafodd cyflogau ac amodau gwaith erioed eu cytuno, ac nid yw hyfforddiant proffesiynol ond yn cynhyrchu llond llaw o arweinwyr llawn-amser.

44. Nid yw'r bartneriaeth, a ragwelwyd yn y cylchlythyron cynnar, rhwng y Weinyddiaeth, awdurdodau addysg lleol a mudiadau gwirfoddol, wedi llwyddo bob tro i wynebu her amgylchiadau newydd. Cyfeiriasom at yr amrywiadau mawr rhwng arferion gwahanol awdurdodau addysg lleol, eu dehongliad o'u cyfrifoldebau, a'u cysylltiadau gyda chyrff gwirfoddol. Nid yw diffyg cydymdeimlad â gwaith ieuenctid mewn rhai ardaloedd – lleiafrif yn ffodus – wedi llwyddo bob tro i atal gwaith da rhag cael ei wneud ynddynt, ond mae'r diffyg cysondeb o ran polisi ledled y wlad yn gyffredinol, ynghyd â'r ansicrwydd am beth fyddai lefelau grantiau i'r dyfodol, wedi tanseilio'r hyder y dylai unrhyw bartneriaeth genedlaethol fod yn seiliedig arno. O ran y berthynas rhwng awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol, ni fu digon o gydlynu ymdrechion, ac o'r herwydd bu temtasiwn i greu meysydd dylanwad yn hytrach na chwilio am dir cyffredin.

45. Gwendid arbennig yn y Gwasanaeth Ieuenctid, y lleisiodd ein holl dystion bryder yn ei gylch, yw ei fethiant i gyrraedd cymaint o bobl ifanc heddiw. Y ffigwr a ddefnyddiwyd yn aml oedd nad oedd y Gwasanaeth ond yn denu un o bob tri, ac fe gawsom gadarnhad o hynny, yn gyntaf yn ymatebion awdurdodau addysg lleol i'n holiadur ac, yn ail, yn yr arolwg a gynhaliwyd gan y Swyddfa Wybodaeth Ganolog.

**YR YMCHWYDD**

47. Am bob pum person ifanc rhwng 15 ac 20 oed heddiw fe fydd yna, yn 1964, chwe pherson ifanc. Ni fydd y cynnydd hwn yn cael ei wasgaru'n gyfartal ar draws y wlad yn gyfan gwbl; ond bydd pob ardal a phob math o ardal yn gweld rhyw fath o gynnydd. Mewn rhai trefi newydd disgwyliwn gynnydd o gymaint â phum gwaith drosodd. Rhwng 1964 ac 1970 bydd y cyfanswm yn gostwng yn raddol, ond bydd yn dal i fod gryn dipyn yn uwch na chyfanswm heddiw. O 1970 ymlaen rydym yn debyg o weld cynnydd graddol unwaith eto. Yn gyffredinol, mae'n rhaid inni gynllunio ar gyfer cyfanswm sylweddol uwch o arddegwyr nag y buom yn gyfarwydd â meddwl amdano.

48. Roedd angen ac fe gymerwyd camau brys i gwrdd ag effaith yr 'ymchwydd' hwn ar yr ysgolion. Mae camau tebyg yn cael eu cymryd yn awr i gwrdd ag effaith pobl ifanc o genhedlaeth yr 'ymchwydd' ar golegau technegol a phrifysgolion sy'n mynd yn fyfyrwyr ynddynt. Ni chymerwyd camau tebyg hyd yn hyn i baratoi'r Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer anghenion y boblogaeth gynyddol hon. Oni chymerir y camau hyn yn fuan bydd cenhedlaeth yr 'ymchwydd' yn gadael yr ysgol ac yn gweld fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn annigonol i ddelio hyd yn oed â'i gyfrifoldebau blaenorol.

**DIWEDD GWASANAETH CENEDLAETHOL**

49. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gwasanaeth cenedlaethol wedi cadw tua 200,000 o ddynion ifanc rhwng 18 ac 20 oed allan o fywyd

sifilaidd. Bydd y broses raddol o ddod â gwasanaeth cenedlaethol i ben dros y ddwy neu dair blynedd nesaf yn golygu y bydd y nifer hwnnw o ddynion ifanc yn chwilio am swyddi cyffredin ac am gyfleoedd hamdden.

50. Dywedwyd wrthym yn gryf iawn ar sawl achlysur fod gwasanaeth cenedlaethol yn fuddiol iawn i ddynion ifanc i ddatblygu nid yn unig eu galluoedd corfforol ond ei fod hefyd yn eu gwneud yn fwy hunan-ddibynnol, ac yn meithrin eu gallu i weithio mewn grŵp ac i dderbyn disgyblaeth bendant at bwrpas cyffredin. Roedd tystion eraill yn amau'r honiadau hyn ac yn awgrymu yn hytrach fod gwasanaeth cenedlaethol yn torri rhai clymau pwysig (cartref, cymdogaeth a gwaith) ar adeg hollbwysig ym mywydau dynion ifanc; a'i fod yn beryglus o ddiflas i lawer o ddynion ifanc neu'n eu cyflwyno i rai gweithgareddau anffodus (gor yfed, amlgymharu rhywiol) heb gynhaliaeth amgylchedd cyfarwydd. Ni theimlom mai'n dyletswydd ni fel pwyllgor oedd cyrchu'r mater hwn ymhellach hyd at bwynt ble gallem ddatgan casgliad cyffredin. Rhoddwn ein sylw yn uniongyrchol felly i ganlyniadau diweddu gwasanaeth cenedlaethol, ac i'r ffaith y bydd tua 200,000 yn fwy o ddynion ifanc rhwng 18 ac 20 oed yn aros mewn cymdeithas sifilaidd nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

51. Daw tri phwynt yn amlwg. Yn gyntaf, ac i'r graddau ei bod yn wir fod gwasanaeth cenedlaethol yn rhoi her ac antur i'r dynion ifanc hyn oedd yn addas i'w hoed a'u hanghenion, rhaid i'r Gwasanaeth Ieuenctid dderbyn peth o'r cyfrifoldeb o ddarparu, mewn termau sifilaidd perthnasol, y math hwn o gyfle.

52. Yn ail, dylai fod ymhlith y bechgyn hŷn lawer a allai, o gael yr anogaeth angenrheidiol, chwarae rhan bwysig yn y gwaith o redeg y mudiadau presennol a'r grwpiau hunan-raglennu hynny.

53. Yn drydydd, mae'n amlwg y bydd rhyddhau'r nifer sylweddol hwn o ddynion ifanc yn rhoi cryn straen ar y Gwasanaeth Ieuenctid oni wneir newidiadau oddi fewn iddo. Bydd y grŵp hwn, ynghyd â'r garfan sy'n rhan o ddyfodiad yr 'ymchwydd', yn golygu y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn gyfrifol am filiwn o bobl ifanc ychwanegol yn 1964 nac yr oedd rhaid iddo ddarparu ar eu cyfer yn 1958. Bydd y cynnydd gwirioneddol ar ffigyrau 1958 wedi gostwng i tua 770,000 yn 1973, ond o hynny ymlaen mae'n debyg y bydd y nifer yn codi eto. Yn 1960 bydd cyfanswm y bobl ifanc rhwng 15-20 yn gynhwysol dros 3½ miliwn. Yn amlwg, mae hyn yn awgrymu dadl *prima facie* o leiaf dros ehangu sylweddol ar bob agwedd o'r Gwasanaeth, yn arweinyddion (llawn a rhan amser, cyflogedig a gwirfoddol), yn drefnwyr, yn gynlluniau hyfforddi, yn adeiladau, yn gyfleusterau awyr agored ac yn offer.

## PATRYMAU NEWYDD YM MYWYDAU MENYWOD

57. Mae maint y newidiadau sy'n digwydd ym mywydau menywod yn gwneud inni oedi rhag gwneud mwy na thynnu sylw at dri phwynt y teimlwn sy'n berthnasol i'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer merch yn ei harddegau. Yn y lle cyntaf, mae cydbwysedd traddodiadol bywyd merch yn cael ei newid gan y ffaith ei bod yn priodi'n gynt, gan y ffaith fod y cyfnod magu plant yn un byrrach, a chan y twf yn nifer y menywod sy'n mynd allan i weithio ar ôl priodi. Mae byrhau'r cyfnod rhwng ysgol a phriodi yn arbennig o

berthnasol gan ei fod yn gadael llai o amser i'r ferch aeddfedu'n gymdeithasol ac i feithrin y sgiliau technegol sydd eu hangen i gadw tŷ. Yn ail, mae merched o gartrefi ble mae gwaith llaw fu'r norm yn tueddu i symud, ac i symud yn gyflymach na'u brodyr, i waith nad yw'n waith llaw mewn sefyllfa gymdeithasol sy'n wahanol i'r un y buont yn gyfarwydd â hi. Mae'r straeniau posib mewn sefyllfa felly yn amlwg. Ac mae hyn yn arwain at ein trydydd pwynt. Byddai'r newidiadau hyn i batrymau hen gyfarwydd yn awgrymu fod angen addysg bellach ar ferched yn ogystal â bechgyn ar ôl gadael ysgol. Y gwir yw eu bod yn cael llawer iawn yn llai. Gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid, gyda'r cyfleoedd a gynigia ar gyfer addysg anffurfiol, unioni rhai o'r diffygion hyn, ond mae llai o ferched nac o fechgyn yn aelodau o fudiadau ieuenctid, a bydd angen meddwl llawer mwy am ffyrdd o'u denu a chynnal astudiaethau o'u hanghenion penodol.

**TRAMGWYDDAETH**

58. Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd cynnydd, a hwnnw weithiau'n gynnydd amlwg iawn, yn nifer a chyfran y bobl ifanc a gafwyd yn euog o droseddau ditiol.

68. Ni chredwn ei bod yn rhwydd na doeth i siarad yn ddi-feddwl am genhedlaeth iau dramgwyddus ac am genhedlaeth hŷn yn parchu'r gyfraith. Hanner y stori'n unig yw hynny. Gall yr hyn sy'n ei adlewyrchu ei hun mewn person deugain neu hanner can mlwydd oed yn *malaise* cyffredinol, yn ymdeimlad o wacter, o wrthod cyfrifoldebau cymdeithasol neu'n sinigiaeth a reolir yn ofalus arddangos ei hun mewn person yn ei arddegau trwy weithred o drais anllad, cyfnod o feddwdod histrionig neu awch am amlgymharu rhywiol. Nid yw'n ymddangos fod cymdeithas yn ei hanfod yn cyrchu'n ddewr a chyffrous am fywyd moesol ac ysbrydol – yr hyn a geir yw ymrwymiad goddefol, niwtral i bethau fel y maent. Mewn gwirionedd, ni ellir beio'r ifanc am y cynnydd mewn ymddygiad tramgwyddus, heb feio ar yr un pryd y cenedlaethau hŷn am ddifaterwch a difrawder i bethau dyfnach y galon.

69. Mae'n naturiol disgwyl i'r Gwasanaeth Ieuenctid allu gwneud rhywbeth am y sefyllfa hon. Mae'n sicr bod rhaid iddo geisio, ond ni ellir disgwyl iddo ddelio ag achosion ymddygiad tramgwyddus y mae ei wreiddiau wedi'u bwrw ymhell cyn blynyddoedd yr arddegau, neu sy'n ymwneud ag ethos cymdeithas yn gyffredinol. Yn wir, ni all fod yn effeithiol, ac hyd yn oed wedyn i raddau cyfyngedig yn unig, os nad yw'n mynd â chymdeithas gydag ef yn ei waith anodd. Cyn inni sôn am yr hyn y gallai ei wneud, rhaid dweud nad effaith y cynnydd mewn troseddu yw troi pob arddegyn yn dramgwyddwr; yr hyn a wna yn hytrach yw creu awyrgylch ble y mae'n fwyfwy anodd i weithwyr cymdeithasol ac ieuenctid lwyddo a ble y rhoddir rhwystrau seicolegol rhwng hyd yn oed y bobl ifanc barod eu cymwynas a'r mudiadau sy'n awyddus i gydweithio â nhw. Mae'r hinsawdd yn arbennig o gythryblus gyda'r ymdeimlad o drais a dinistr cynyddol – heb fod yn dditiol bob tro – ymhlith carfannau o bobl ifanc. Mae i hyn effeithiau dinistriol mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae'n creu bwlch rhwng pobl ifanc yn gyffredinol ag aelodau hŷn cymdeithas sy'n parchu'r gyfraith, sy'n tyfu'n gagendor sydd bron yn amhosibl i'w bontio. Mae camddealltwriaeth yn ffynnu. Yn ail, caiff effaith ddofn ar bobl ifanc nad oes ganddynt eu hunain unrhyw dueddiad tuag at drais. Cânt eu haflonyddu gan lwyddiant y bobl

ddigyfraith mewn cymdeithas. Daw hyn yn fwy gwir bob tro y metha cymdeithas â dwyn troseddwyr o flaen eu gwell. Mae pob arddegyn mewn ardal boblog yn gwybod am droseddau a gyflawnwyd ond na chawsant eu darganfod yn y gymdogaeth. Mae'n clywed rhai'n brolio amdanynt mewn lleoedd cyhoeddus. Mae'n gwybod fod bywyd o droseddu, y rhan fwyaf ohono heb ei ddarganfod, yn bosibl, ac mae hyn yn ysgwyd ei ffydd yn nhrefn ac urddas y gymdeithas y mae'n byw ynddi. Daw'r gymdeithas gyfan i ymddangos yn ddauwynebog. Yn drydydd, mae troseddau treisgar (yn enwedig os na chânt eu darganfod) yn brawychu pobl ifanc eraill. Mewn un ystyr dyna'u pwrpas. Mae arddegwyr brolgar digyfraith yn gobeithio'n wir y bydd eu cyfoedion yn derbyn eu bod yn gryfach na chymdeithas ac uwchlaw ei chyfreithiau. Mae'n rhaid fod hynny'n ymddangos yn wir pan mae person ifanc a gafwyd yn euog o drosedd yn ail-ymddangos yn ei hen gynefin ac yn barod i gyflawni'r un hen gastiau, heb ymddangos fod ei brofiadau yn y llys wedi tarfu dim arno, ac ar adegau ei fod hyd yn oed yn mwynhau ei statws uwch o fewn ei grŵp. Yn bedwerydd, mae troseddau treisgar yn creu awyrgylch ble y mae pobl hŷn yn anfodlon ymyrryd i atal troseddau eraill oherwydd eu bod yn ofni y cyflawnir trais yn eu herbyn hwythau. Mae pawb sydd wedi troi ymhlith arddegwyr mewn rhai o faestrefi'r dinasoedd mawrion wedi gorfod wynebu'r cyfyng-gyngor moesol hwn ar ryw adeg neu'i gilydd. Mae'r ffaith fod y cyhoedd yn gyffredinol yn gwadu eu cyfrifoldebau gan ofni dial yn golygu fod yr heddlu'n cael eu hynysu ac yn dioddef oherwydd diffyg cefnogaeth y cyhoedd. Caiff effaith farwol ar bobl ifanc sy'n dymuno parchu'r gyfraith, ac sy'n teimlo pwysau cymdeithasol i oddef neu o leiaf i beidio â gwrthwynebu pobl ifanc dramgwyddus mewn unrhyw ffordd allai eu peryglu nhw'u hunain. Deuant i'w casgliadau eu hunain a chwaraeant yn ddiogel.

70. Yr hyn y mae'n rhaid gofyn amdano ynghanol yr ymwadiad moesol hwn yw arwydd clir a chryf gan gymdeithas gyfan ei bod yn condemnio'r cynnydd mewn trais a dinistr, a'r troseddau personol ymhlith pobl ifanc. Mae hyn yn rhagamod angenrheidiol i unrhyw therapïau cymdeithasol. Dim ond os yw cymdeithas yn gwybod beth i'w gondemnio y gall wybod beth i'w iacháu. Ni ddylai fyth gael gwared trwy unrhyw beth a wna â'r ymdeimlad o gyfrifoldeb personol ymhlith pobl ifanc am eu gweithredoedd eu hunain.

71. Ar yr ochr gadarnhaol, o ystyried awyrgylch cenedlaethol newydd o'r fath, gall y Gwasanaeth Ieuenctid wneud llawer i wneud apêl cymdeithas dda ymddangos yn gryfach na deinameg drygioni. Gan ei ddiwygio a'i gryfhau a'i gefnogi yn y ffordd a ddarluniwn yn y penodau nesaf, dylai fod yn llawer mwy abl i greu cyfleoedd newydd a chyffrous i bobl ifanc nag sy'n bosibl ar hyn o bryd a dylai allu ennyn diddordeb ac egni llawer iawn mwy o bobl ifanc i feithrin sgiliau personol, neu hyfrydwch bywyd cymdeithasol da, ac mewn ffyrdd o wasanaethu'r gymuned. Wrth iddo dyfu bydd yn denu, nid yn unig fwy o'r daionus a'r rhai sy'n parchu'r gyfraith, ond hefyd fwy o'r bobl sy'n feirniadol ac aflonydd a'r sawl sydd yn arweinwyr naturiol ond efallai anystyriol eu cyfoedion. Ni fydd yn gwneud hynny trwy unrhyw fath o bregethu – teimlwn fod y math o Wasanaeth Ieuenctid a fwriadwn yn cau'r drws ar hynny – ond trwy gynnig mathau newydd o ryddid i'r genhedlaeth nesaf i ddod at

aeddfedrwydd, ac at gyfrifoldeb cymdeithasol yn ei ffordd ei hun. Ond, dywedwn eto, ni allai Gwasanaeth Ieuenctid heb gefnogaeth gymdeithasol ac wedi'i ynysu'n ysbrydol lwyddo.

## CYFIAWNHAD A NODAU'R GWASANAETH IEUENCTID

127. Ni ellir cymryd yr angen am Wasanaeth Ieuenctid yn ganiataol. Gellid dadlau'n ddigon deallus na ddylid gwario arian cyhoeddus yn darparu'r hyn sydd i raddau helaeth yn ddim mwy na chyfleusterau hamdden i bobl sydd wedi gorffen eu haddysg lawn-amser ac sy'n ennill cyflog. Os ydynt yn barod i dalu, mae bron unrhyw gyfleuster y gallai fod pobl ifanc ei eisiau ar gael iddynt. Mae hon yn gymdeithas rydd [meddai'r ddadl], gadewch nhw iddi.

128. Rydym yn sicr ein hunain fod angen Gwasanaeth Ieuenctid; rydym yr un mor sicr fod rhaid cwestiynu'r angen hwnnw mewn ffordd mor radical ag y bo modd. Nid yw'r ffaith fod gennym Wasanaeth Ieuenctid yn berthnasol ar hyn o bryd. Credwn felly mai priodol yw nodi'r hyn sy'n ymddangos inni, gan ddefnyddio'r nifer fawr o ddatganiadau gwerthfawr a gyflwynwyd inni, y cyfiawnhad dros Wasanaeth Ieuenctid a gefnogir gydag arian cyhoeddus. Ond yn gyntaf dylem ddechrau trwy ddweud beth nad yw Gwasanaeth Ieuenctid.

129. Bydd eisoes yn amlwg nad ydym yn bychanu problem tramgwyddaeth ymhlith yr ifanc nac i ba raddau y gall Gwasanaeth Ieuenctid da helpu'n ddamweiniol i'w leddfu. Ond byddai gwneud hynny'n gyfiawnhad ar gyfer bodolaeth Gwasanaeth Ieuenctid naill ai'n gorddweud nifer y tramgwyddwyr neu'n tanbrisio'r ffordd y gallai Gwasanaeth Ieuenctid fod o fudd i'r mwyafrif mawr na fyddant fyth mewn llys ieuenctid nac oedolion. Nid yw'r Gwasanaeth yn negyddol, yn ffordd o'u 'cadw oddi ar y strydoedd' neu 'allan o drafferth'.

130. Pa mor gymeradwy bynnag yw Gwasanaeth Ieuenctid, mae'n amlwg nad yw'n bosibl nac yn ddymunol y dylai pawb, neu hyd yn oed fwyafrif mawr y bobl ifanc ar unrhyw adeg, gymryd rhan ynddo. Bydd llawer yn parhau'n 'ddigyswllt' ag ef, a hynny'n ddigon hapus a chynhyrchiol. Mewn gwirionedd, bydd gan lawer mwy 'gysylltiad' nag a awgrymir gan y cofnodion swyddogol. Mae llu o weithgareddau gwerthfawr cudd, na welir mohonynt mewn unrhyw adroddiadau – clybiau seiclo lleol, clybiau pêl droed lleol, ac ati. Yn y mudiadau cymunedol hynny, gall pobl ifanc, heb unrhyw ddatganiadau ffurfiol o bwrpas, arddangos gallu rhyfeddol i fod yn hunan-ddibynnol, i gydweithio ac i fod yn oddefgar. Fodd bynnag, mae'n ymddangos inni'n wir y gallai llawer o'r rhai sydd ar hyn o bryd yn 'ddigyswllt', naill ai'n swyddogol neu'n answyddogol, pe eid ati yn y ffordd iawn, fod yn gysylltiedig ac y gallent elwa o'r cysylltiad.

131. I'r sawl sy'n amau'r angen am Wasanaeth Ieuenctid byddem yn gofyn y cwestiwn hwn. Mae'r Wladwriaeth yn gwneud darpariaeth helaeth ar gyfer datblygu cymdeithasol i redeg yn gyfochrog â'i darpariaeth ar gyfer datblygiad deallusol, i fyny at ba oed bynnag y mae pobl ifanc yn aros mewn addysg lawn-amser: a yw'n iawn felly bod y ddarpariaeth gymdeithasol hon yn dod i ben mor sydyn ar gyfer pobl lai deallusol eu hanian, dim ond oherwydd eu bod wedi gadael addysg lawn-amser? Gellid cyferbynnu safon y math o adeiladau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Ieuenctid gyda rhai hostel preswyl neu ystafell gyffredin

myfyrwyr israddedig mewn bron unrhyw brifysgol briciau cochion. Unwaith eto, mae gan lawer o ysgolion eilradd modern ddigon o gyfleusterau tu allan i'r dosbarth (offer, y defnydd o ystafelloedd dymunol ar gyfer cyfarfodydd clybiau, llyfrgell anffurfiol). Mae'n rhaid fod unrhyw un a gafodd brofiad o'r math yma o ysgol eilradd fodern yn tristáu o weld tlodi cymharol y ddarpariaeth gymdeithasol a chymunedol ar gyfer bechgyn a merched sy'n mynd yn syth oddi yno i fyd gwaith. Mae'n debyg y bydd oed gorfodol gadael ysgol, efallai yn y blynyddoedd nesaf, yn codi i 16. Cymerir yn ganiataol y bydd y lefel bresennol o ddarpariaeth anffurfiol yn cael ei chario ymlaen i'r pwynt hwnnw – ac y daw i bob pwrpas i ben wedyn. Os oes angen y gweithgareddau anffurfiol hyn ar bobl ifanc 15 oed heddiw ac y bydd eu hangen ar bobl ifanc 16 oed yfory; os oes eu hangen ar bobl ifanc i fyny at 21 oed heddiw (ar yr amod eu bod mewn addysg lawn-amser), mae'n ddiamau fod eu hangen ar bawb na fu eu harfau deallusol yn ddigonol i'w cadw o dan adain gyfforddus addysg lawn-amser.

132. Cydnabyddir y gall y mwy academaidd eu doniau elwa o ddarpariaeth gymdeithasol dda: adeiladau sy'n annog bywyd a gweithgareddau corfforaethol; cysylltiad defnyddiol a chydymdeimladol gydag oedolion deallus. Aiff pobl ifanc eraill allan yn 15 oed i gymdeithas sydd mor ddryslyd fel bod hyd yn oed oedolion yn ei chael yn anodd dod o hyd i'w cyfeiriad ynddi. Mae diffyg rhesymeg truenus mewn trefniant sy'n rhoi manteision addysg gymdeithasol i'r sawl sy'n parhau o fewn cymdeithas drefnus sefydliad addysg lawn-amser, ond sy'n rhoi'r ddarpariaeth fwyaf dinod i bobl y mae eu hangen am ddarpariaeth o'r fath gymaint yn fwy.

133. Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, cymharol ychydig oedd ar gael yn yr hyn a alwyd bryd hynny'n ysgolion elfennol i fodloni anghenion pobl ifanc am addysg anffurfiol. Cymerwyd naid ddychmygus enfawr ers hynny, ac fe dalwyd am ysgolion newydd, wedi'u cynllunio'n fwy cynhwysfawr, wedi'u staffio'n fwy amrywiol, gydag adnoddau mwy hyblyg allan o'r pwrs cyhoeddus. Bydd angen naid yr un mor feiddgar ar Wasanaeth Ieuenctid na'r un sydd wrthi ar hyn o bryd yn trawsnewid ein hysgolion eilradd modern. Credwn fod angen dim llai.

134. Nid ydym yn tanbrisio gwerth ymdrech addysgol ffurfiol o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid. Ond credwn fod prif bwrpas gwasanaeth o'r fath yn gymdeithasol neu fugeiliol. Mae hynny, wrth reswm, yn bwrpas addysgol mewn ystyr ehangach nag a ddefnyddir fel arfer, ac fe'i mynegwyd yn llawn yn natganiad enwog Syr John Maud am nodau'r Gwasanaeth Ieuenctid: "Cynnig i bobl ifanc yn eu hamser hamdden gyfleoedd o wahanol fathau, sy'n ategu'r rhai yn y cartref, addysg ffurfiol a byd gwaith, i ddarganfod a datblygu adnoddau personol y corff, y meddwl a'r ysbryd er mwyn arfogi eu hunain yn well i fyw bywydau aelodau aeddfed, creadigol a chyfrifol cymdeithas rydd".

135. Credwn y dylid gosod y datganiad hwn, i roi iddo ei lawn arwyddocâd, yn erbyn y cefndir cyfoes yr ydym wedi'i ddisgrifio – sef cymdeithas sydd ar yr un pryd mor gymhleth, ffurfiol a chyfnewidiol fel y gall ei phwysau gwrthgyferbyniol rwystro datblygiad cadarnhaol i raddau helaeth iawn. Nid nod y Gwasanaeth Ieuenctid yw cael gwared â thensiynau er mwyn ceisio cyrraedd rhyw gyflwr damcaniaethol o 'addasu' i fywyd unigol neu gymdeithasol. Ei bwrpas yw helpu i

sicrhau na fydd y tensiynau hynny sy'n ddamweiniau cymdeithasol, sy'n aml yn ddibwrpas a gormesol, yn boddi posibiliadau gwell plant yn ystod eu harddegau. Dylai'r Gwasanaeth geisio'n gyntaf ddarparu lleoedd i gymdeithasu sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ymgynnal a datblygu, yn wyneb cymdeithas amrywiol, eu hymdeimlad o frawdoliaeth, o barch a goddefgarwch at ei gilydd. Gall canolfannau o'r fath helpu hefyd i wrthweithio'r tueddiad cynyddol mewn cymdeithas tuag at haeniadu addysgol a phroffesiynol. Mae gan bobl sydd wedi'u bendithio'n ddeallusol neu'n ariannol gymaint i'w ennill ag eraill o'r cyfle i gyd-gymdeithasu, gymaint i'w ddysgu er mwyn ei roi i eraill. Mae'n anodd iawn rhedeg clwb a chan ei aelodau gefndiroedd addysgol cymysg, ond mae gwerth anghyffredin mewn ceisio.

136. Ac eto, fel y dywedasom, mae arddegyn heddiw yn byw a bod mewn cymdeithas sydd ar yr un pryd yn hynod gyfyngedig ac yn rhyfeddol o oddefgar, ac mae'n darganfod ei hun yn cael ei ganfasio gan lawer o gyrff a mudiadau sy'n ceisio newid ei agweddau mewn ffyrdd sy'n fanteisiol iddyn nhw. Mae angen iddo ddatblygu ei allu i wneud penderfyniadau cadarn; mae angen, er enghraifft, cyfleoedd i sylweddoli fod rhai pethau – sy'n anoddach ac yn arafach i'w hennill – er hynny'n fwy gwerthfawr na'r cynyrfiadau a gynigir yn atyniadau byrhoedlog y dydd. Dyma inni yw sylfaen y ddadl dros gynnig addysg a hyfforddiant penodol o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid. Nid yw'n gwrthdaro â'r nod a awgrymwyd ynghynt; yn hytrach mae'n ei hategu. Ond mae'n amlwg fod angen i'r math yma o addysg benodol gael ei chreu a'i chyfeirio'n ddychmygus. Gall cymdeithasu ynddo'i hun fod yn ddiwerth i bobl ifanc, neu gall fod yn anghyffredin o addysgiadol, gan ddibynnu ar ddychymyg yr arweinwyr. A gall addysg ffurfiol yn unig fodloni llythyren ond mygu ysbryd datblygu addysgol ymhlith pobl ifanc. Os yw gweithgarwch addysgol yn cael ei gynllunio'n hyblyg, credwn y gall wneud cysylltiad perthnasol â phrofiad y myfyrwyr a bod yn galed ac ymdrechgar. Ni chredwn fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn chwilio am ddewisiadau rhwydd, ond eu bod eisiau cyfeiriad pendant i'w hymdrechion.

137. Cymdeithasu o'r math cywir a hyfforddiant o'r math cywir – at y ddwy brif nod yma i'r Gwasanaeth Ieuenctid fe ychwanegwn drydedd: her. Gall yr agwedd hon fwydo'r gweddill i gyd. Yma fe bwysleisiwn ddau bwynt yn unig: fod gan lawer o arddegwyr angen cryf i ddod o hyd i rywbeth y gallant ei wneud, yn unigol neu mewn grŵp o'u dewis, y maen nhw'n teimlo sydd werth ei wneud y tu hwnt i bleser neu wobrwyon personol; a'i bod yn hynod bwysig fod pobl ifanc, o wahanol fathau a lefelau gallu, yn cael cyfleoedd i arddangos a pharchu mathau o ragoriaeth mewn meysydd nad ydynt yn academaidd.

138. I grynhoi: y cwestiwn y dylid ei ofyn erbyn hyn yw nid a oes angen Gwasanaeth Ieuenctid, ond all y wlad hon ymdopi ag un sydd mor amlwg brin o'r adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y dydd? Mewn cyfnod o ddigonedd na welwyd mo'i fath o'r blaen, mae bywydau llawer o bobl ifanc yn debygol o fod yn dlotach yn 20 oed nac y gallech fod wedi'i ddychmygu o'u gweld yn gadael yr ysgol yn eiddgar yn 15. Ni fu pobl ifanc erioed gymaint mewn torf – na byth yn fwy unig; heb Wasanaeth Ieuenctid byddai llawer ohonynt nid yn fwy rhydd ond yn llai rhydd. Gall Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cael y

gefnogaeth angenrheidiol helpu llawer mwy o unigolion i ddod o hyd i'w ffordd eu hunain yn well, yn bersonol a chymdeithasol. Rhaid i'r wlad hon ddewis cael Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cael y gefnogaeth angenrheidiol am y rhesymau hynod bwysig hyn.

## EGWYDDORION AC ARFERION

139. Yn y bennod ddiwethaf rydym wedi ceisio edrych ar y byd fel y mae pobl ifanc yn ei weld. Ceisiwn yn awr sefyll yn esgidiau'r sawl sy'n gweithio ymhlith pobl ifanc, gan fanteisio i raddau helaeth eto ar y dystiolaeth a roddwyd inni.

140. Mae gan lawer ohonynt, yn wirfoddolwyr neu'n weithwyr cyflogedig, flynyddoedd lawer o brofiad y tu cefn iddynt. Fel arfer daethant i mewn i'r Gwasanaeth Ieuenctid y ffordd galed, trwy weithio mewn clybiau a mudiadau gwirfoddol. Maent wedi eu hamddifadu eu hunain o gwmni a difyrion oedolion. Mewn neuaddau swnllyd ac ystafelloedd diflas maent wedi dal ati er gwaethaf difaterwch y genedl, ac weithiau er gwaethaf difaterwch pobl ifanc, dal ati ac adeiladu mudiadau yr oedden nhw (ac weithiau mae'n rhaid ei bod wedi ymddangos, nhw yn unig) yn teimlo oedd yn hanfodol i gymdeithas yn ogystal ag i'r bobl ifanc eu hunain. Gwyddent fod rhaid iddynt fyw a gweithio yn ôl egwyddorion uchel, a daethant i weld fod rhai agweddau yr un mor angenrheidiol hefyd ar ran y sawl oedd yn elwa, os oedd y gwaith yn mynd i lwyddo hyd yn oed yn y ffordd fwyaf cyfyngedig. Roedd rhaid iddynt ofyn am deyrngarwch, ymdeimlad o gyfrifoldeb, brawdgarwch da, ymdeimlad pa mor niwlog bynnag o gymuned ehangach y mae'n rhaid rywsut ei gwasanaethu. Po gliriaf yr oedd yr arweinwyr yn gweld yr anghenion hyn po fwyaf awchus y byddent yn ceisio symbylu aelodau eu clybiau i'w teimlo hefyd.

141. Ac eto dros gyfnod o amser y tueddiad yw fod cynyrfiadau moesegol yn colli eu brys a'u hawch, a'u bod yn mynd i ymddangos i bobl ifanc heb gysylltiad â'r sefyllfaoedd y maen nhw'n cael eu hunain ynddynt. Felly, mae pobl ifanc heddiw'n gallu troi eu cefnau ar lawer o fentrau cymeradwy a gynlluniwyd yn benodol ar eu cyfer, oherwydd bod y ffurfiau a'r ymadroddion a ddefnyddir i'w cyflwyno yn ymddangos yn uchel-ael neu'n amherthnasol. Ar adeg pan mae llawer o bobl ifanc yn teimlo temtasiwn i wrthod profiad ac awdurdod oedolion mae'n amlwg na ddylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gael ei weld yn cynnig rhywbeth wedi'i becynnu – 'ffordd o fyw', 'set o werthoedd', 'côd', fel pe bai'r rhain yn bethau oedd ar gael yn ôl y galw, heb iddynt gael eu profi mewn bywyd go iawn.

142. Yn y pendraw, rhaid i bobl ifanc eu hunain ddewis gadael i oedolion geisio helpu. Ni ellir cael unrhyw fath o drosglwyddo gwerthoedd *a priori*, oherwydd i egnïoedd ac ymchwiliadau'r arddegau nid yw'r rhan fwyaf o werthoedd yn *a priori*. Os ydynt yn teimlo'r angen, mae'n rhaid i bobl ifanc gael y rhyddid i gwestiynu syniadau, agweddau a safonau annwyl, ac os oes raid, i'w gwrthod. Rydym wedi pwysleisio'r pwynt hwn oherwydd y credwn y gellid galw un o'r cyfyngiadau pwysicaf mewn rhai rhannau o'r Gwasanaeth Ieuenctid heddiw yn fethiant cyfathrebu. Oherwydd y bwlch hwn credwn fod mwy yn ddiglwb nac sy'n anghlwbadwy.

143. Cyfeiriwn yn awr yn uniongyrchol at ddau bwynt cysylltiol y gobeithiwn yn fawr na chawn ein

camddeall arnynt. Mae'r cyntaf yn ymwneud â nodau ysbrydol y Gwasanaeth Ieuenctid ac yn benodol â'r ffaith fod llawer o ddatganiadau pwrpas (ac nid rhai mudiadau enwadol yn unig) yn cynnwys cyfeiriad at yr angen i 'gyfathrebu gwerthoedd Cristnogol'. Mae gennym yn naturiol gydymdeimlad mawr â'r nod hwn, ac mewn gwirionedd mae Deddf Addysg 1944 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol 'i gyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol y gymuned ….'. Rhaid i fudiadau enwadol neu rai sydd ag ymrwymiadau penodol fod yn rhydd i roi mynegiant i'w delfrydau ysbrydol yn eu gwaith ieuenctid. I'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gyffredinol, fodd bynnag, credwn mai camsyniad yw ymgorffori delfrydau yn y ffordd hon. I lawer o bobl ifanc heddiw mae'r trafod ar 'werthoedd ysbrydol' neu 'werthoedd Cristnogol' yn fwy na dim yn eu gwneud yn ddrwgdybus. Prin fod angen inni ychwanegu nad ydym yn awgrymu fod pobl ifanc yn anfoesol neu heb ddelfrydau: yr hyn a ddywedwn yw fod y mynegiant simsan neu wrthddywediadol o 'werthoedd ysbrydol' mewn cymdeithas yn gyffredinol a'r gwanhau ar iaith gyhoeddus mor afaelgar fel ei fod yn peri i lawer o bobl ifanc wrthod yn gyson ddynesiad uniongyrchol o'r math yma. Ac mae'r sawl a chanddynt feddyliau mwy annibynnol yn debygol o ymwrthod yn fwy penderfynol fyth. Clywsom am bobl sy'n dweud na ddylai'r Gwasanaeth Ieuenctid fod yn ddrws cefn cuddiedig i gredoau crefyddol nac yn ffurf o 'ecsploetio moesol'. Ail-adroddwn felly ei bod ar y cyfan yn well i egwyddorion gael eu gweld yn disgleirio trwy weithredoedd yn hytrach na'u bod yn cael eu lleisio trwy ryw honiad ysbrydol arbennig.

144. Gwnawn sylwadau tebyg ar y nod y cyfeirir ato'n aml o 'hyfforddi pobl ifanc mewn dinasyddiaeth'. Pan mae cymaint mewn bywyd cyhoeddus yn ymddangos mor amheus iddynt, a yw'n syndod fod cyn lleied yn ymateb i'r nod hwn yn y ffurf hon? Fel y dywedodd un tyst wrthym: 'Mae dinasyddiaeth yn air sy'n golygu fawr ddim i bobl ifanc'. Mae chwarae eich rhan fel dinesydd yn bwysig iawn, ac mae gweithgareddau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn berthnasol yn hynny o beth. Ond gellir gweld dechreuadau 'dinasyddiaeth' yn gymaint yng nghynildeb a doethineb cysylltiadau cymdeithasol mewn clwb ieuenctid da, hyd yn oed mewn ardal anodd, ag mewn trafodaethau uniongyrchol ar ddinasyddiaeth dda. Nid yw'n hawdd trosi'r rhinweddau hyn i amgylchiadau bywyd cyhoeddus heddiw, ond maent yn sylfaen dda ar gyfer trosiad o'r fath.

145. Mae llawer yn yr uchod yn codi cwestiwn cymhleth cyfathrebu mewn cymdeithas a gafodd ei rhannu i raddau helaeth iawn yn hierarchaidd yn ei hiaith ac sy'n mynd erbyn hyn, yn enwedig felly trwy weithgareddau 'cyfathrebu torfol', bron yn ddemotig 'ddiddosbarth'. Credwn fod hyn yn effeithio ar ymateb pobl ifanc i'r hyn a ddywedir wrthynt hyd yn oed os nad ydynt yn ddeallusol soffistigedig. Fe'n trawyd gan y nifer fawr o droeon, yn y dystiolaeth a gyflwynwyd inni, pan ddefnyddiwyd geiriau fel y canlynol *fel pe baent yn ieithwedd gyffredinol-dderbyniol a dilys*: 'gwasanaeth', 'ymroddiad', 'arweinyddiaeth', 'meithrin cymeriad'. Unwaith eto, nid ydym eisiau cael ein camddeall. Nid ydym yn herio mewn unrhyw ffordd werth y cysyniadau sydd y tu ôl i'r geiriau hyn, na'u hystyrlonedd i'r sawl sy'n eu defnyddio. Nid ydym ychwaith yn meddwl nad oes gan bobl ifanc y rhinweddau hyn, neu na ellir eu cryfhau. Ond rydym yn sicr nad oes gan y geiriau arbennig fawr ddim cysylltiad â realiti bywyd fel y gwêl y

rhan fwyaf o bobl ifanc ef; nid ydynt fel pe baent yn 'siarad am eu cyflwr nhw'.
Maent yn cofio'r hierarchaeth, yr amserau llai diddorol hynny yn ystod y diwrnodau areithio yn yr ysgol ac adegau eraill pan gafwyd anogaeth foesol. Er bod tuedd gan lawer o bobl ifanc i droi cefn os y gofynnwyd iddynt am 'wasanaeth', yng nhyd-destun eu cymdogaeth neu wrth y ddesg waith, yn aml iawn maent yn barod i ddangos 'gwasanaeth' wrth weithredu. Rydym o'r farn eu bod yn ddiolchgar am help i weld, diffinio a gweithredu yn unol â safonau moesol, ond eu bod am weld y rhain wedi'u gwireddu mewn modd perthnasol, a bod yn rhaid dangos y perthnasedd mewn geiriau. Gan amlaf y dyddiau hyn maent mewn diffeithwch rhyfedd; yn ôl greddf maent yn gwrthod llawer iawn o'r gwerthoedd ffals a gynigir iddynt gan elfennau o gymdeithas; ond ni allant dderbyn yr amodau a ddisgwylir gan bobl sydd heb ddiddordeb a chan bobl sy'n wir ymroddedig. O bosib nid yw'r ffaith nad ydynt yn mynychu clybiau ieuenctid yn arwydd o ddifaterwch ond yn hytrach methiant pobl hŷn i addasu eu dulliau iaith.

146. O'r holl egwyddorion cyffredinol sy'n sail i Wasanaeth Ieuenctid da (gobeithiwn y gallwn roi'r rhan fwyaf ohonynt yn ein hargymhellion) rhoddir pwyslais ar y ddau yma, amrywiaeth a hyblygrwydd. Os yw canoli bywyd cymdeithasol, er ei fod yn cynnig mwy o ddewis o ran pethau materol nag erioed o'r blaen, yn tueddu i gulhau'r mathau o ddewis, gan ganoli chwaeth, yna dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid geisio dyfrhau'r dewisiadau hyn. Mewn perthynas â hyn fe'n synnwyd ni gan lwyddiant rhai ardaloedd yn cyflwyno gweithgareddau penodol, gweithgareddau a welwyd yn draddodiadol yn rhai ar gyfer y grwpiau 'uwch' yn ein cymdeithas, i grwpiau cymysg o bobl ifanc a'r ymgais gan rai awdurdodau i gofrestru gwell ffyniant a dyfodol i bobl ifanc trwy ddarparu cyrsiau neu ddiddordebau gweddol ddrud o safon uchel iddynt. Cawsom ein hargyhoeddi o wirionedd yr honiad gan rai mudiadau arbenigol, sydd heb unrhyw ddibenion ideolegol neu enwadol penodol (e.e. mudiadau chwaraeon, Cymdeithas Hosteli Ieuenctid) bod eu cyfleusterau o werth sylweddol anuniongyrchol i ddatblygiad personol a chymdeithasol eu haelodau. Mae hyblygrwydd yn golygu sylweddoli bod gan bobl ifanc ddiddordebau angerddol ond cyfoes, a bod yn profi yr hyn y mae tyst yn ei alw yn 'cyfnodau angerddol', ac y dylid darparu ar gyfer hyn heb gymryd yn ganiataol fod gan bobl ifanc feddyliau sy'n mynd o un peth i'r llall; ac mewn gwirionedd, dylid darparu ar gyfer gweithgareddau tymor byr. Mae hefyd yn dilyn ein bod ar y cyfan yn gryf o blaid cadw'r patrymau cymysg o ddarpariaeth sy'n bodoli, rhwng cyrff gwirfoddol a statudol. Yn y fan hon yr unig beth y byddem yn ei ychwanegu yw: nid bodolaeth nifer o fudiadau gyda gwahanol gyfansoddiadau ac enwau yw'r unig ffordd o gael gwir amrywiaeth. Heddiw mae yna fwy o amrywiaeth enwau ymysg mudiadau gwirfoddol nag o wahanol ddulliau gwirioneddol.

147. O ran y pwyslais hwn ar hyblygrwydd ac amrywiaeth nid yw'n fwriad gennym i agor y drws i unrhyw weithgaredd heb gyfeirio at ei amcanion a'i safonau. Nid ydym ychwaith yn gofyn am ddealltwriaeth ehangach o densiynau seicolegol a chymdeithasol mewn pobl ifanc, rydym yn argymell amgyffrediad o sut y mae pobl ifanc yn gweld y byd. Mae gwaith ieuenctid yn arbennig o heriol

oherwydd bod yn rhaid cerdded ar hyd y llwybr cul hwnnw rhwng cydymdeimlad ac ildio o ddydd i ddydd. Nid ymateb pobl ifanc sy'n rhoi'r gair olaf ar gyflwr cymdeithas gyfoes; fodd bynnag mae'n bosib fod oedolion aflwyddiannus o bryd i'w gilydd yn ymgorfforiad ohonynt, nid yw'r gwerthoedd y maent yn eu harddel mewn gwirionedd yn 'gyflyru'.

## Y GWASANAETH IEUENCTID A CHYMDEITHAS – FFOCWS NEWYDD

348. Mae nifer o'n tystion wedi dweud wrthym am yr ymdeimlad o ynysrwydd a deimlir gan arweinwyr ieuenctid, a'r diffyg cefnogaeth gyhoeddus sy'n hanfodol os yw'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddod o hyd i'w lle priodol o fewn strwythur cymdeithasol ac addysgiadol cymdeithas.

349. Yn gyntaf mae'n rhaid ystyried y Gwasanaeth Ieuenctid mewn perthynas â'r ddau brif ddylanwad ar bobl ifanc – cartref a gwaith – a'u cysylltiadau â gwasanaethau addysgiadol a chymdeithasol eraill. Does yna ddim all gymryd lle cartref da. Ni all y Gwasanaeth Ieuenctid ac ni ddylai ryddhau rhieni o'u cyfrifoldeb dros eu plant, ond gall fod o help iddynt mewn cyfnod pan fo'n rhaid gwneud newidiadau anodd mewn perthynas, cydnabod mesur o annibyniaeth ac annog diddordebau newydd allanol. Credwn y gall rhieni ac arweinwyr ieuenctid helpu ei gilydd; rydym yn gobeithio y bydd arweinwyr yn dod i adnabod cartrefi eu haelodau yn well lle bynnag y mae hyn yn bosibl; dangosir tystiolaeth bod llawer o rieni yn croesawu'r cyfle i drafod eu problemau teuluol. Mae'r cyflymdra y mae cymdeithas yn newid yn ei gwneud yn anodd i rieni ddeall sut mae syniadau'r genhedlaeth nesaf wedi newid, a gall hyn arwain naill ai at anoddefgarwch neu at ddifaterwch ar eu rhan, mae gan y ddwy agwedd hon effeithiau anffodus. Fe ddylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gynorthwyo bywyd teuluol, ac ni ddylai fod yn rhywbeth amgen iddo.

350. Yn fwy na thebyg gwaith fydd y ffactor pwysicaf ym mywydau'r rhan fwyaf o bobl ifanc y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i gynllunio ar ei gyfer. Bydd y math o swydd sydd gan y bachgen neu'r ferch, i ba raddau y mae'n bodloni neu ddiflasu, faint o egni y mae'n ei thynnu oddi wrthynt, y cyfleoedd am ddyrchafiad a statws y mae'n ei chynnig yn siŵr o ddylanwadu ar y math o weithgareddau y bydd pobl ifanc yn chwilio amdanynt yn eu hamser hamdden. Yn ogystal, mae addasu i fyd eu cydweithwyr, sydd mor wahanol i'r hyn a geir yn y dosbarth, o bosib yn achosi tensiynau a phroblemau emosiynol sydd angen eu datrys. Mae'n amlwg felly bod yn rhaid i'r rheini sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid fod yn ymwybodol o newidiadau mewn amodau diwydiant. Fe ddylent geisio gweithio'n agos gyda swyddogion cyflogaeth ieuenctid a sefydlu cymaint o gysylltiadau gyda chyflogwyr a swyddogion undebau masnach â phosib, yn arbennig mewn sefydliadau llai lle nad oes yna swyddogion personél neu addysg. Efallai y dylai awdurdodau addysg lleol ystyried ffyrdd o gryfhau cynrychiolaeth gan ddiwydiant a masnach ar eu pwyllgorau. Mae cyrsiau ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol 'Dysgu ac Ennill', yn arbennig pan gynhelir cynadleddau pellach rai misoedd wedi i'r bobl ifanc setlo yn eu swyddi, wedi profi i fod yn werthfawr. Dylai arweinwyr clybiau hefyd fod yn barod i helpu gyda phroblemau sy'n gallu codi o ganlyniad i ddiweithdra dros dro i'r

ifanc, ac i fod yn hyblyg o ran oriau agor y clwb. Gall y Gwasanaeth Ieuenctid wrth ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu galluoedd a'u diddordebau, mwynhau eu horiau hamdden a siarad am eu hanawsterau, wneud cyfraniad positif i les cymdeithas ddiwydiannol.

351. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhan hanfodol o'r system addysg, oherwydd y mae'n darparu ar gyfer addysg gymdeithasol ac anffurfiol parhaol pobl ifanc yn nhermau'r pethau hynny sy'n fwyaf tebygol o'u haeddfedu, y rheini sydd â chyfrifoldeb am ddewisiadau personol. Gall hamdden fod yr un mor addysgiadol i'r person ifanc ag yw chwarae i faban, ag yr un mor bwysig wrth hyrwyddo datblygiad corfforol, deallusol a moesol angenrheidiol er mwyn newid y person ifanc yn ddinesydd cyfrifol. Camgymeriad felly, yw ceisio tynnu llinell rhy bendant rhwng hamdden a ffyrdd mwy ffurfiol o addysg bellach. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a ffyrdd eraill o addysg bellach yn gwahaniaethu o ran dull yn hytrach na bwriad, a'r agosaf yw'r cyswllt rhyngddynt y mwyaf y fantais i'r ddau. Bydd rhai aelodau o'r clybiau ieuenctid yn dilyn cyrsiau addysg galwedigaethol rhan amser; tra bydd eraill o bosib yn datblygu eu diddordebau a hobïau yn eu hamser hamdden i'r man lle maent yn chwilio, neu'n cael eu harwain i chwilio, am ddysg mwy systemataidd mewn sefydliadau gyda'r nos; mae hyn i gyd yn awgrymu y dylai arweinwyr ieuenctid fod mewn cyswllt agos â staff colegau ac addysg bellach a sefydliadau addysg gyda'r nos, a bod rhywfaint o ymgynghori yn digwydd wrth gynllunio rhaglenni. Nid yw'r traffig i gyd yr un ffordd ychwaith – gall awdurdodau addysg lleol trwy alluogi bod hyfforddwyr arbenigol ar gael i grwpiau ieuenctid gyfrannu'n fawr i'r amrediad o ddiddordebau y gellir eu cynnig. Fodd bynnag, ni ddylai help fel hwn fod yn rhy haearnaidd oherwydd rheoliadau ynglŷn â chofrestru a phresenoldeb, neu bydd yn hunan drechol. Mae hyblygrwydd a goddefgarwch yn hanfodol wrth weithio gyda phobl ifanc mewn clybiau ac yn y grwpiau gweithgareddau unigol sy'n digwydd yn ddigymell, sef yr hyn yr ydym yn gobeithio ei weld yn datblygu.

355. Rydym eisoes wedi nodi ein cred bod angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r ysgolion. Bydd yn rhaid i'r athrawon gymryd y cam cyntaf, ond gall y mudiad ieuenctid helpu i ennill hyder y proffesiwn dysgu trwy gydweddu eu safonau gyda'r rheini a geir gyda gweithgareddau cymdeithasol ysgolion. Nid ydym yn bychanu'r gwaith anodd o adeiladu pont rhwng ysgolion a grwpiau ieuenctid, er yn yr hir dymor fe ddylai fod yn haws os y derbynnir ein hargymhellion i hyfforddi arweinwyr ieuenctid. Ni allwn wneud mwy na'i gymeradwyo a gofyn i athrawon ac arweinwyr ieuenctid roi'r ystyriaeth y credwn ei fod yn ei haeddu; a chredwn fod yr arbrawf diweddar a wnaed gan rai awdurdodau addysg lleol o benodi nifer o athrawon er mwyn meithrin gweithgareddau i bobl ifanc, p'un ai eu bod dal yn yr ysgol neu newydd adael, yn gyfraniad defnyddiol, ac mae cyrsiau preswyl byr i rai sydd newydd adael ysgol er mwyn eu cyflwyno hwy i weithgareddau amser hamdden wedi profi i fod o werth.

356. Er bod gan y Gwasanaeth Ieuenctid ran swyddogol yn y system addysg, o ran rhai agweddau, yn enwedig ei swyddogaeth fugeiliol, mae'n cyfrannu at les a gwasanaethau cymdeithasol. Hawdd yw defnyddio'r

term ‘pobl ifanc’ ac yn hynny anghofio bod y Gwasanaeth Ieuenctid yno i helpu nifer fawr o wahanol bersonoliaethau yn y broses o dyfu ac aeddfedu. Mae nifer o’r rhain yn unigolion ifanc bendigedig, iach, hyderus, cytbwys; nid oes angen pryderu amdanynt. Ond mae yna eraill sy’n ei chael yn anodd dod i delerau â chymdeithas, a gall eu hanallu cymdeithasol ymddangos mewn nifer o ffyrdd, o swildod i ymdeimlad o orfod dangos eu hunain i droseddu. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yno i’w helpu hwy, hefyd, ond ar hyn o bryd mae’r grŵp hwn i’w ganfod yn bennaf ymysg yr unigolion ‘digymar’. Rydym yn gobeithio y bydd Gwasanaeth Ieuenctid adfywiedig yn cynnig gwell gwasanaeth, gan wneud apêl ehangach a’u galluogi hwy i ddatblygu a chodi allan o’u hanawsterau. Rydym o’r farn y bydd gwell darpariaeth o ran y cyrsiau preswyl ac antur yr ydym wedi’u hargymell, a datblygu grwpiau gweithgareddau unigol, o gymorth yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ni ddweud gyda rhai o’r bobl ifanc hyn bod gwreiddiau eu hanhwylder yn gorwedd mor ddwfn yn eu plentyndod â ffactorau amgylcheddol ac os yw’r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd i lwyddo i’w cyrraedd yna bydd yn rhaid iddo feddu ar alluoedd arbennig i wneud hynny. Mae hyn yn fwy na chwestiwn o addysg; mae’n broses hir o ail-addysgu. Mae yna angen am arweinwyr sy’n meddu ar ddoniau arbennig, bydd yn rhaid gweithio’n agosach â gwaith achos a hefyd bydd angen cyfradd staffio uwch; mae’n debygol o fod yn ddrud. Rydym o’r farn bod angen i awdurdodau addysg lleol a mudiadau gwirfoddol ystyried pa agweddau y gallant eu cyfrannu i’r elfen ffrwydrol hon, ac y dylai arian fod ar gael er mwyn ymestyn yr amrywiaeth o dechnegau arbrofol a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae angen i Gyngor Datblygu’r Gwasanaeth Ieuenctid roi sylw arbennig i’r broblem hon, ac i gasglu a chrynhoi canlyniadau’r ymchwil a’r arbrawf. Allan yn y maes bydd yn rhaid i bwyllgorau ieuenctid ac arweinwyr weithio’n agosach gyda swyddogion plant a’r gwasanaeth prawf. Os ydym o ddifrif ynglŷn â thaclo’r broblem yna bydd angen hefyd am fwy o ddealltwriaeth ac amynedd ar ran y cyhoedd. Mae arbrofion yn dangos y gall llwyddiant cychwynnol wrth ennill hyder y rheini sydd â diffygion cymdeithasol yn aml iawn arwain at ffrwydriadau ffres o drais neu dor cyfraith, fel pe bai’n profi sicrwydd y berthynas sydd wedi’i adeiladu gan y gweithiwr ieuenctid. Y mwyaf o gefnogaeth y mae’r gweithiwr ieuenctid yn ei gael gan y gymuned yna bydd ei waith o berswadio’r giang nad yw pawb yn eu herbyn yn haws.

357. Rydym yn croesawu diddordeb gan ddiwydiant mewn pobl ifanc a hoffem weld hyn yn cael ei ymestyn, ond credwn yn y rhan fwyaf o ardaloedd mai’r help gorau y gellir ei roi yw trwy gyfrannu at, a chymryd rhan mewn gweithgareddau lleol yn hytrach na chreu grŵp llai oddi fewn i’r gymuned. Yn arbennig nid ydym am weld clybiau diwydiannol sy’n gyfyngedig i rieni sydd ar brentisiaeth neu grwpiau dewisol eraill, gan leihau arweinwyr posib oddi wrth y mudiadau ieuenctid lleol. Gall dwy ochr diwydiant hefyd wneud cyfraniadau gwerthfawr i’r Gwasanaeth Ieuenctid, trwy wasanaethu ar bwyllgorau ieuenctid, trwy ddod o hyd i wirfoddolwyr fel arweinwyr neu er mwyn cyfarwyddo grwpiau arbenigol, a thrwy roi cymorth ariannol i fudiadau gwirfoddol. Gall cwmnïau helpu trwy fenthyg eiddo a chyfleusterau hamdden pan nad ydynt mewn defnydd fel arall. Hoffem weld pob cyflogwr ac undeb yn ystyried yr help y gallent o bosib ei gynnig fel rhan o ailddeffroad

cenedlaethol sydd yn fawr ei angen i anghenion y Gwasanaeth Ieuenctid.

358. Rydym am annog yr un ystyriaeth gan gymdeithasau oedolion, yn arbennig felly clybiau chwaraeon a chymdeithasau, fel ag yr ydym wedi'i nodi, mae ganddynt gymaint i'w gynnig sy'n cydweddu â phrif ddiddordebau'r mwyafrif o bobl ifanc. Hefyd rydym am annog pob grŵp sydd â rhyw ddiddordeb y gallent ei rannu, rhyw allu neu sgil y gellir ei drosglwyddo ymlaen: cymdeithasau natur, bandiau pres, cymdeithasau ffotograffeg, clybiau gleidio, grwpiau sgetsio a pheintio, ogofawyr, i sôn am ddim ond ychydig o'r cymdeithasau amrywiol lle y mae pobl yn cwrdd er mwyn dilyn rhyw fath o ddiddordeb a mwynhau eu hamser hamdden mewn modd creadigol.

359. Rydym wedi pwysleisio'r angen am ragor o bobl i gynorthwyo. Rydym yn gobeithio y bydd pob cymdeithas sy'n cymryd diddordeb mewn materion cyfoes yn dod o hyd i gyfle i ddod â'r gofyniad hwn o flaen eu haelodau; a thrwy'r wasg, radio a theledu y bydd dinasyddion cyffredin yn dod yn ymwybodol o'r cymorth y gallent ei gynnig. Rydym yn gobeithio y bydd apêl yn cael ei wneud i ddynion a merched proffesiynol, technegwyr, gweithwyr ac amaturiaid dawnus ym maes chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau ac yn y blaen, er mwyn helpu a chynghori grwpiau; i'r rheini sydd â dawn i ennill hyder a hoffter pobl ifanc, i weithredu fel arweinwyr, er mwyn rhoi'r cymorth amhrisiadwy hynny i arweinwyr oherwydd hebddo ni allant wneud eu gwaith, er enghraifft, gwaith cantîn, cadw llyfrau, codi arian, gwaith gofal a busnes ysgrifenyddol. Mae yna angen mawr am help dinasyddion cyffredin, yn arbennig felly dros y deng mlynedd nesaf o ddatblygiad oherwydd fe fydd yna brinder arweinwyr hyfforddedig. Ni ddylai unrhyw un beidio â dal yn ôl oherwydd ei fod yn amau ei allu neu fedr; caredigrwydd sylfaenol, synnwyr cyffredin syml a digonedd o amynedd yw'r rhinweddau pwysicaf. Rôl oedolyn mewn clwb yw bod fel rhiant doeth neu, fel y dywedodd un tyst 'y rôl bwysicaf sydd gan arweinwyr a chynorthwywyr sy'n oedolion yw bod fel dirprwy riant: eu gwaith yw cefnogi'r teulu'. Dyma'r rheswm pam bod gwerth cael y math iawn o ŵr a gwraig fel cwpl yn ac o amgylch y clwb yn amhrisiadwy. Ar yr ochr reolaeth, hefyd, rhaid i'r duedd ogwyddo tuag at ddiddordeb cyfeillgar ac ymgynghorol, a gall dinasyddion cyffredin weithredu fel 'dargludyddion' ac 'ymgymerwyr straen', fel y disgrifiwyd y gwaith gan un arweinydd ieuenctid.

362. Ar y llaw arall, bydd yn rhaid dod o hyd i'r arian ychwanegol o drethi, a'r maen prawf yma fydd yn profi a yw'r cyhoedd yn poeni. Rydym yn gobeithio fod yr holl daflenni ac adroddiadau, gan gynnwys ein rhai ein hunain, sydd wedi'u cyhoeddi dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwasanaethu er mwyn dod â'r mater pwysig hwn o flaen y genedl.

363. Yr hyn sydd ei angen, fodd bynnag, yn fwy na dim ar ran y cyhoedd yn gyffredinol yw gwerthfawrogiad llawn dychymyg o'r ffordd y mae pethau wedi newid o ran sut mae pobl ifanc heddiw yn gweld pethau. Mae'n ddigon hawdd condemnio gweithredoedd ac agweddau sydd yn eu hunain yn ddigon diniwed yn syml oherwydd eu bod yn wahanol ac felly'n ymddangos eu bod yn mynd yn erbyn codau ymddygiad neu ymarweddiad sydd bellach yn ddiystyr i'r genhedlaeth iau. Mae'n well cadw dig moesol ar gyfer yr hyn sydd angen ei geryddu'n foesol,

a hyd yn oed wedyn ni fydd yn effeithiol oni bai fod yna gydymdeimlad a dealltwriaeth. Mae'r ymdrech i ddeall yn gorwedd fel sail i bob rhinwedd; yn bendant dyma lle gall y genedl wneud dechreuad.

## ARGYMHELLION

364. Er hwylustod ceir rhestr isod o'r prif argymhellion.

(1) Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid fod ar gael i bob person ifanc rhwng 14 a 20 oed. (Paragraffau 149-153.)

(2) Dylai'r *Gweinidog Addysg* gychwyn rhaglen ddatblygu ddeng mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid, wedi'i rhannu'n ddwy ran o bum mlynedd yr un. Ar gyfer y cyfnod hwn o ddatblygiad fe ddylai'r Gweinidog benodi pwyllgor ymgynghorol bychan, o ddim mwy na deuddeg aelod, a'i enwi yn Gyngor Datblygu'r Gwasanaeth Ieuenctid. Dylai dynion a merched sydd â rhinweddau a phrofiad arbennig i'w gynnig fod yn aelodau ohono, ac yn eu mysg dylai o leiaf dau ohonynt feddu ar ddealltwriaeth o'r problemau arbennig yng Nghymru. Ni ddylid penodi aelodau'r Cyngor ar sail cynrychiadol. (Paragraff 157.)

(3) Dylai'r Gweinidog wneud yn siŵr fod ei drefniadau gweinyddol yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth yn cael eu cymryd ar lefel sy'n ddigon uchel fel y gallant gael eu gweithredu'n gyflym. (Paragraff 159.)

(4) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* wneud yn siŵr ym mhob ardal am o leiaf y cyfnod datblygu o ddeng mlynedd, bod is-bwyllgor o'r pwyllgor addysg (ac nid is-bwyllgor o is-bwyllgor) yn gyfrifol am y Gwasanaeth Ieuenctid. Fe ddylai'r is-bwyllgor hwn dderbyn cyngor gan bwyllgor ymgynghorol gyda chynrychiolaeth lawn gan fudiadau gwirfoddol. (Paragraffau 161-162.)

(5) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol,* mewn ymgynghoriad â mudiadau gwirfoddol, adolygu a diweddaru eu cynlluniau addysg bellach, oherwydd bod y rhain yn ymwneud â'r ddarpariaeth amser hamdden i bobl ifanc. (Paragraff 163.)

(6) Dylai *Cynhadledd Sefydlog Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol* weithio mewn cydweithrediad agos â'r Cyngor Datblygu er mwyn cryfhau a chodi safonau'r partneriaid gwirfoddol yn y Gwasanaeth Ieuenctid. (Paragraff 167.)

(7) Mae'n hanfodol datblygu'r egwyddor wirfoddol ym mhob lefel o weithgarwch. Dylid cynnal ymgyrch genedlaethol am ragor o gynorthwywyr gwirfoddol, gan gynnwys pobl sydd â'r sgiliau i wasanaethu grwpiau hunan raglennol. (Paragraffau 170 a 193.)

(8) Dylai Pwyllgorau Rheoli ac Arweinwyr ymdrechu i sefydlu cynghorau cefnogwyr. (Paragraff 172.)

(9) Dylid rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan fel partneriaid yn y Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn arbennig felly wrth ddatblygu grwpiau hunan raglennol. (Paragraffau 173-176 a 193-195.)

(10) Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gynnig cyfleoedd i bobl ifanc i ffurfio cymdeithasau, hyfforddiant a chynnig her. (Paragraffau 183-219.)

(11) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* annog amrediad o weithgareddau amser hamdden corfforol i bobl ifanc, trwy gynorthwyo ar y dechrau gyda chyllid a benthyg offer, trwy ddarparu hyfforddiant mewn canolfannau sy'n

gyfleus, a thrwy gydnabod y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan glybiau chwaraeon sydd wedi'u sefydlu a grwpiau arbenigol. (Paragraffau 197-198)

(12) Mae rhaglen adeiladu hael a llawn dychymyg yn hanfodol er mwyn adfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac er mwyn ei arfogi ar gyfer yr ehangu sy'n cael ei alw amdano. Dylai'r Gweinidog, trwy grŵp datblygu Cangen Penseiri ac Adeiladau'r Weinyddiaeth, ystyried cynllun adeiladau lle cynhelir gwaith ieuenctid; a dylid cynyddu nifer y staff os oes angen. Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol,* mewn ymgynghoriad â mudiadau gwirfoddol, baratoi cynlluniau datblygu i'w hardaloedd, wrth adolygu eu cynlluniau ar gyfer addysg bellach. (Paragraffau 224-225)

(13) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* ganiatáu ar gyfer anghenion y Gwasanaeth Ieuenctid wrth gynllunio ysgolion uwchradd newydd a hefyd yn y gwaith o ad-drefnu addysg uwchradd (e.e. megis adain neu adeilad ar wahân ar gyfer cynnal clybiau, a thrwy ddefnyddio celfi y gellir eu defnyddio mewn dwy ffordd). (Paragraff 226.)

(14) Dylid rhoi ystyriaeth ar unwaith i ehangu llety preswyl. (Paragraff 232.)

(15) Dylid gwella'r celfi, goleuadau, addurniadau ac offer yn ogystal â gwell adeiladau i'r Gwasanaeth Ieuenctid. (Paragraff 233.)

(16) Dylai'r Weinyddiaeth, awdurdodau a chyrff gwirfoddol roi blaenoriaeth i wella'r prinder cyffredinol o ran cyfleusterau ar gyfer hamdden corfforol, dan do ac yn yr awyr agored. (Paragraffau 234-238.)

(17) Dylai'r *Gweinidog* osod trefniadau hir dymor mewn llaw ar gyfer arweinwyr llawn amser. I gymaint â phosib fe ddylai fod yn drosglwyddiad hawdd o fod yn arweinydd ieuenctid i broffesiwn arall. Dylid recriwtio arweinwyr llawn amser o dri phrif gategori: athrawon, gweithwyr cymdeithasol, ac unigolion aeddfed sy'n dangos dawn naturiol i fod yn arweinwyr. Dylid datblygu pedwar dull o hyfforddi ar gyfer y tri categori o recriwtio, a'i gynnwys yn y cyrsiau ymarfer dysgu tair blynedd; y cyrsiau tair a phedair blynedd i weithwyr cymdeithasol; y cyrsiau tri mis i'r rheini sydd â chymwysterau proffesiynol a welir eu bod yn addas; a'r cyrsiau blwyddyn a dwy flynedd ar gyfer myfyrwyr aeddfed. (Paragraffau 247-258.)

(18) Dylai *mudiadau gwirfoddol cenedlaethol* sy'n dymuno i'w cynlluniau gael eu cydnabod er mwyn darparu cymhwyster proffesiynol, gyflwyno eu cynlluniau i'r Gweinidog, a ddylai gael cyngor gan y Cyngor Datblygu cyn eu cydnabod hwy. (Paragraff 263.)

(19) Dylai'r *Gweinidog* gynyddu nifer y grantiau er mwyn cwrdd â'r nifer cynyddol o fyfyrwyr y disgwylir i ddilyn y cyrsiau i fyfyrwyr aeddfed; a dylid cynnig grantiau arbennig i weithwyr cymdeithasol hyfforddedig fydd yn mynychu'r cyrsiau tri mis. (Paragraff 264.)

(20) Dylai'r *Gweinidog* gymryd camau i gynyddu nifer yr arweinwyr llawn amser presennol o 700 i 1,300 erbyn 1966. Felly dylid agor coleg hyfforddi ar frys, yn cynnig cwrs blwyddyn i ddynion a merched mewn arweinyddiaeth ieuenctid. Ni ddylai'r coleg agor yn hwyrach na Medi, 1961, ac yn gynt na hynny os yn bosibl; dylai gynnig o leiaf 90 o leoedd yn y

flwyddyn gyntaf, gan godi i 140 tua diwedd y cyfnod pum mlynedd. (Paragraffau 266 ac Atodiad 10.)

(21) Dylai'r *Gweinidog* wahodd y Mudiadau Hyfforddi Ardal priodol i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o arolygu'r holl gyrsiau hyfforddi arweinwyr ieuenctid cydnabyddedig, ac ag argymell myfyrwyr llwyddiannus i'w cydnabod gan y Gweinidog fel arweinwyr cymwys. (Paragraff 275.)

(22) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* argymell i'r Gweinidog, fel cydnabyddiaeth am brofiad cymwys, yr arweinwyr llawn amser hynny sydd eisoes mewn swydd ac wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth llawn amser fel arweinwyr ieuenctid gan wneud hynny mewn modd sy'n boddhau'r awdurdodau. (Paragraff 276.)

(23) Dylai'r *Gweinidog* bennu dyddiad pan na fydd yn bosib i arweinydd ieuenctid llawn amser fedru hawlio cymhwyster yn ôl profiad yn unig. (Paragraff 276.)

(24) Dylai'r *Gweinidog* bennu pwyllgor er mwyn trafod cyfraddau a chyflogau ac er mwyn adolygu trefniadau pensiwn; fe ddylai gynrychioli cyrff statudol a gwirfoddol sy'n cyflogi a hefyd arweinwyr a gyflogir gan y ddau fath yma o gorff. Enghraifft debyg i hyn yw'r Pwyllgor presennol ar Gyfraddau a Chyflogau ar gyfer Staff Dysgu mewn Colegau Hyfforddi (Pwyllgor Pelham). (Paragraffau 279-285.)

(25) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* gynyddu nifer yr arweinwyr rhan amser sy'n cael eu talu, lle mae yna gyfiawnhad dros wneud y math hwn o benodiadau oherwydd angen go iawn; dylai'r tâl y mae'r arweinwyr hyn yn ei dderbyn adlewyrchu ansawdd y swydd. Wedi 1966 fe ddylai llawer iawn mwy o awdurdodau fedru penodi athrawon yn benodol i dreulio hanner eu hamser mewn ysgolion a'r hanner arall yn arwain clwb. (Paragraff 287.)

(26) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol a mudiadau gwirfoddol* mewn cydweithrediad agos, drefnu cynlluniau hyfforddi rhan amser i arweinwyr rhan amser, i rai sy'n derbyn cyflog a rhai gwirfoddol. (Paragraff 289.)

(27) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* fod â threfniadau hyblyg mewn lle er mwyn darparu hyfforddwyr sy'n cael eu talu ar gyfer clybiau ieuenctid, grwpiau ac unedau. (Paragraff 292.)

(28) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* nad ydynt yn cyflogi swyddogion gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, neu swyddi sy'n cyfateb â hyn, adolygu'r angen am benodiadau o'r fath. (Paragraff 294-297.)

(29) Dylai'r Gweinidog gynnig dau fath o grantiau i gyrff gwirfoddol cenedlaethol o dan Reoliadau Grantiau Hyfforddi Cymdeithasol a Chorfforol, 1939:

(i) bydd y Weinyddiaeth yn derbyn grantiau sylfaenol tuag at weinyddiaeth y pencadlys a chostau teithio na fyddai fel arfer yn fwy na 75 y cant o'r gost gyfan ar gyfer pobl ifanc 14-20 oed, a hynny tuag at ddibenion grant;

(ii) grantiau arbennig, yn enwedig ar gyfer gwaith arbrofol neu arloesol mewn perthynas â'r 14-20 oed. Dylai mudiadau sy'n gwasanaethu ond sydd heb unrhyw aelodaeth benodol fod yn gymwys i dderbyn grant. (Paragraffau 303-306.)

(30) Dylai'r *Gweinidog* ddod â'r eithriad i ben sy'n gynhenid yn ei

bolisi parthed grantiau i gyrff gwirfoddol cenedlaethol sydd â theyrngarwch enwadol; yr unig faen prawf ddylid ei ystyried yw gwerth y gwaith cymdeithasol ac addysgiadol y maent yn ei roi i'r bobl ifanc 14-20 oed. (Paragraff 307.)

(31) Dylai'r Gweinidog ystyried i ba raddau y gall ymestyn ei grantiau i gynnwys hyfforddi arweinwyr ieuenctid proffesiynol, yn enwedig os yw unrhyw ran o'r gost o gynllun hyfforddi brys i'w dalu amdano yn uniongyrchol gan ei grantiau ef. (Paragraff 308.)

(32) Dylai'r Gweinidog, wedi pum mlynedd gyntaf y cyfnod datblygu, beidio â rhoi grantiau i gyrff gwirfoddol lleol o dan Reoliadau Grantiau Hyfforddi Cymdeithasol a Chorfforol, 1939. (Paragraff 309.)

(33) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* gyflawni eu pwerau llawn o dan Ddeddf Addysg, 1944, a rhoi grantiau cyfalaf i grwpiau ieuenctid gwirfoddol, yn enwedig pan fydd grantiau'r Weinyddiaeth yn dod i ben wedi'r cyfnod datblygu cyntaf o bum mlynedd. (Paragraff 309.)

(34) Dylai'r *Gweinidog* gael gwared o'r uchafswm presennol o £5,000 ar grantiau cyfatebol i gyrff gwirfoddol lleol o dan y Rheoliadau Grantiau Hyfforddi Cymdeithasol a Chorfforol, 1939, a hefyd mewn perthynas ag unrhyw grantiau cyfalaf o dan Ddeddf Hyfforddiant Corfforol a Hamdden, 1937, ar gyfer prosiect sydd wedi'i gynllunio'n arbennig er budd pobl ifanc 14-20 oed yn ogystal â'r rheini sy'n hŷn. (Paragraffau 310 1 315.)

(35) Dylai'r *Gweinidog* ymestyn ei ddarpariaeth grantiau er mwyn cynorthwyo cynlluniau hyfforddi a weinyddir gan gyrff llywodraethol chwaraeon. (Paragraff 314.)

(36) Dylai'r *Gweinidog* sicrhau bod unrhyw wariant ychwanegol ar y Gwasanaeth Ieuenctid gan awdurdodau addysg lleol sy'n derbyn grantiau canolog cyfatebol, naill ai ar ffurf grantiau cyffredinol ychwanegol neu gan grantiau canran ar wahân i hynny. (Paragraff 317.)

(37) Dylai'r Gweinidog adolygu ei drefniadau rheoli buddsoddiadau cyfalaf er mwyn galluogi awdurdodau i fynd yn eu blaenau â chynigion unigol am adeiladau i'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n costio mwy na £20,000. Dylai'r Gweinidog hefyd sicrhau fod gan awdurdodau ddigon o ddyraniad ar gyfer gwneud 'mân waith' er mwyn eu galluogi hwy i roi'r ddarpariaeth angenrheidiol i'r Gwasanaeth Ieuenctid. (Paragraffau 318-319.)

(38) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* roi gwell cefnogaeth ariannol a chefnogaeth ariannol mwy cyson i'r cyrff gwirfoddol lleol hynny sy'n ei haeddu. (Paragraff 320.)

(39) Dylai *Awdurdodau Addysg Lleol* sicrhau fod yna ddigon o staff gweinyddol a chlercio i'r adrannau Gwasanaeth Ieuenctid, er mwyn cadw trefnwyr hyfforddedig allan yn y maes. (Paragraff 321.)

(40) Dylai'r *Gweinidog* dynnu sylw'r holl awdurdodau lleol, gan gynnwys mân awdurdodau, at eu pwerau i roi grantiau a benthyciadau o dan Ddeddfau Hyfforddiant Corfforol a Hamdden, 1937 ac 1958, ac o briodoldeb eu defnyddio er budd pobl ifanc 14-20 oed. (Paragraff 323.)

(41) Dylai'r *Gynhadledd Sefydlog i Fudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol* annog pob mudiad

ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol i gymeradwyo i'w haelodaeth gydio'n y cynnig y dylai cynghorau cefnogwyr a phwyllgorau rheoli rhyddhau arweinwyr medrus o'r faich o godi arian gan eu caniatáu i ganolbwyntio ar roi help ymarferol i bobl ifanc. (Paragraff 326.)

(42) Dylai'r *Gweinidog* ofyn i awdurdodau addysg lleol adolygu'r tâl y maent yn ei godi yn y clybiau a chanolfannau ieuenctid y maent yn eu cynnal a'u cadw. (Paragraff 328.)

(43) Dylai'r *Gynhadledd Sefydlog* annog ei haelodau i drefnu arolwg tebyg o'r ffioedd. (Paragraff 328.)

(44) Dylai a*wdurdodau addysg lleol a mudiadau gwirfoddol* ystyried pa ffyrdd y gellir eu defnyddio gyda'r bobl ifanc hynny sy'n ei chael yn anodd i ddod i delerau â chymdeithas. Dylai Cyngor Datblygu'r Gwasanaeth Ieuenctid gasglu a chrynhoi canlyniadau'r math hwn o ymchwil ac arbrofi. (Paragraff 356.)

**BLAENORIAETHAU**

365. Mae'n ofynnol yn ôl ein cylchoedd gwaith i gynghori 'yn unol â blaenoriaethau'r gwerth gorau y gellir ei gael o'r arian sy'n cael ei wario.' Wrth wneud hyn rhaid tynnu sylw at ddwy nodwedd bwysig o'r argymhellion rydym newydd eu rhestru. Y cyntaf yw fod pob un yn dibynnu ar un brif dybiaeth os am lwyddiant: bod y Llywodraeth yn bwriadu sicrhau fod yna Wasanaeth Ieuenctid digonol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc heddiw. Mae'n ymddangos i ni felly mai dyma'r peth pwysicaf un; os yw'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd i allu cyflwyno'n dda am yr arian sy'n cael ei wario, rhaid i'r Gweinidog ddatgan hyn yn ei bolisi er mwyn datblygu'r Gwasanaeth. Yr ail nodwedd yw bod nifer o'r argymhellion yn ddibynnol ar ei gilydd a bod angen cydamseru yr amrywiol agweddau o'r gwaith sydd i'w datblygu; does dim pwrpas ystyried datblygiad unochrog na ellir ei wasanaethu'n iawn; er enghraifft, gwell cyfleusterau heb yr arweinwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n dda, mwy o arweinwyr heb ehangu ar yr hyfforddiant, neu drefniadau hyfforddi heb y rhagolygon o amodau boddhaol o ran gwasanaeth a strwythur gyrfaol er mwyn recriwtio. Credwn felly bod angen i'r Gwasanaeth Ieuenctid symud ymlaen ar bob lefel, a chyn gynted ag y derbynnir y polisi hwn yna gellir ymgeisio'n rhesymol am flaenoriaethau ariannol eang.

366. Y flaenoriaeth bwysicaf o'r rhain yw rhoi'r trefniadau mewn lle o ran hyfforddiant brys a hir dymor er mwyn hyfforddi arweinwyr proffesiynol. Mae dirfawr angen y cyntaf er mwyn gwneud yn iawn am y diffygion presennol a pharatoi ar gyfer y nifer gynyddol o bobl ifanc ar ddechrau'r 1960'au. Yn yr un modd mae angen sylw ar yr ail er mwyn cynhyrchu canlyniadau mewn pryd i'r ail gyfnod datblygu o bum mlynedd yng nghanol yr 1960'au. Fodd bynnag, rydym yn argyhoeddedig mai'r un ffordd y gellir recriwtio digon o staff o safon fydd yn llanw'r cyrsiau hyfforddi brys a hir dymor yw pe bai'r Gweinidog yn penodi pwyllgor trafod ar gyfer cyflogau ac amodau'r gwasanaeth. Dylai'r Gweinidog hefyd sefydlu Cyngor Datblygu i'r Gwasanaeth Ieuenctid ar unwaith, er mwyn derbyn cyngor ganddo ar y dechrau pan mae'n holl bwysig. Dylid gofyn i awdurdodau addysg lleol ar unwaith i ddiweddaru eu cynlluniau addysg bellach ac i ehangu, trwy ymgynghori â mudiadau gwirfoddol, eu trefniadau ar gyfer hyfforddi

arweinwyr rhan amser ac arweinwyr gwirfoddol. Felly argymhellwn fod y mesurau hyn yn cael eu gweithredu ar unwaith.

367. Nesaf, credwn y dylid gwneud gwelliannau materol, gwelliannau wedi'u cynllunio a cham wrth gam, ym mhob sector o'r Gwasanaeth Ieuenctid. Fe ddylai'r Gweinidog cyn gynted â phosib annog awdurdodau addysg lleol i weld a yw eu gwariant ar wasanaethau a gynhelir ac y cynorthwyir yn ddigonol er mwyn cynnal cyflymder y datblygiad; ac ar yr un pryd dylid ehangu ar y cymorth i gyrff gwirfoddol cenedlaethol, yn arbennig felly ar ffurf grantiau arbennig ar gyfer gwneud gwaith arloesol sydd o arwyddocâd uniongyrchol i wasanaeth sy'n ehangu. Yn ystod y pum mlynedd cyntaf rydym yn gobeithio gweld estyniad sylweddol yn yr eiddo a'r cyfleusterau i'r Gwasanaeth Ieuenctid, hyd yn oed os oes rhaid meddwl am rywbeth yn y fan a'r lle, ond darpariaeth o natur arbrofol fydd hwn yn bennaf. Rydym eisoes wedi dynodi yn rhywle arall y bydd yna gryn dipyn o waith adeiladu wedi'i gynllunio yn ystod yr ail gyfnod o bum mlynedd. Yn ein barn ni, bydd datblygiad o'r fath, os caiff ei gynllunio gam wrth gam ar gyfer y cyfnod 1960-1970, yn derbyn gwasanaeth digonol trwy'r trefniadau hyfforddi rydym eisoes wedi'u hargymell.

368. Ar hyn o bryd ni allwn roi mwy o ganllawiau manwl ar y blaenoriaethau. Mae angen dysgu llawer yng ngoleuni profiad, ac am y rheswm hwn yn fwy na dim arall rydym wedi argymell sefydlu Cyngor Datblygu. Bydd angen i'r Gweinidog dderbyn cyngor gan gorff fel hwn os yw'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd i'w ailwampio er mwyn cyfateb â'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ganghennau eraill ym maes addysg.

## ATODIAD 10

### Amcangyfrif o'r niferoedd o arweinwyr llawn amser sydd eu hangen

Ar hyn o bryd mae tua 700 o arweinwyr llawn amser yng Nghymru a Lloegr (gweler Atodiad 4). Amcangyfrifir y boblogaeth o bobl ifanc 15-20 oed yn 1958 ychydig is na 3½ miliwn. O'r rhain, roedd tua 200,000 mil ohonynt yn y lluoedd arfog, gan adael 3¼ miliwn ym mywyd bob dydd. Effaith gyfunol yr 'ymchwydd', diwedd gwasanaeth cenedlaethol a gostwng oed y Gwasanaeth Ieuenctid i 14 fydd ychwanegu tua 1½ miliwn o bobl ifanc y bydd y Gwasanaeth yn gorfod darparu ar ei gyfer, h.y. cynnydd o tua 46 y cant ar y rhif o 3¼ miliwn presennol ym mywyd bob dydd (gweler Atodiadau 6 ac 8). Er mwyn cadw'r gyfradd bresennol o arweinwyr i gyfateb â'r aelodau posib bydd angen 320 o arweinwyr llawn amser ar y Gwasanaeth Ieuenctid (yn ogystal â chynnydd mewn staff rhan amser, sy'n derbyn cyflog ac yn wirfoddol). Mae hyn yn golygu y bydd angen tua 1,020 o arweinwyr llawn amser ar gyfer y niferoedd o bobl ifanc.

Ond mae yna ffactorau sy'n awgrymu na fydd y cynnydd hwn yn ddigonol:

(a) fe ddylai Gwasanaeth Ieuenctid cryfach ddenu mwy na'r 30 y cant presennol o bobl ifanc o fewn yr oed;
(b) bydd y gwaith grŵp arbrofol gyda'r rhai heb gymar yn ddrud o ran y gweithlu;
(c) rhaid cymryd i ystyriaeth y bydd arweinwyr sydd newydd ennill cymwysterau yn gorfod gweithio

gydag arweinwyr profiadol yn ystod y cyfnod prawf;
(d) mae tystiolaeth bod nifer o awdurdodau addysg lleol wedi hysbysebu'n ofer am swyddi a'i bod yn gwybod bod mawr angen arweinwyr llawn amser.

Er mwyn darparu ar gyfer cynnydd o 30 y cant i 45 y cant, yn y ganran o bobl ifanc a ddenwyd i'r Gwasanaeth (rydym yn ystyried hwn yn rhesymol) mewn theori bydd angen 510 arall o arweinwyr llawn amser, gan wneud cyfanswm o 1,530 i gyd.

Ar y llaw arall, mae yna ffactorau sy'n awgrymu efallai nad oes angen cynnydd ar y raddfa hon, gyda:

(a) rhai arweinwyr a gyflogir ar hyn o bryd yn cael eu gwastraffu;
(b) os defnyddir galluoedd arwain y bobl ifanc hŷn yn iawn, mae'n bosib na fydd angen oedolion o'r math traddodiadol i arwain;
(c) gall rhai clybiau gynnwys aelodau ychwanegol heb orfod cynyddu nifer y staff llawn amser;
(d) bellach mae'r ifanc yn aros yn yr ysgol yn hirach, ac o bosib mae'r duedd hon yn arwyddocaol iawn (gweler Atodiad 7);
(e) disgwylir lleihad yn nifer y rhai 14-20 oed ddiwedd yr 1960'au, er bod yna arwyddion y gallai cynnydd pellach ddilyn hyn (gweler Atodiad 6);
(f) mae nifer fawr o bobl ifanc 14 oed eisoes yn mynychu clybiau a mudiadau, er eu bod y tu allan i'r oed swyddogol hwnnw a ddylai berthyn i'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae'n amhosib rhagweld effeithiau'r ffactorau hyn, ond rydym yn amcangyfrif, gan seilio hyn yn rhannol ar ddyfalu, y gellir lleihau'r nifer o arweinwyr llawn amser sydd eu hangen rhyw 200-250. Felly lleihad i amcangyfrif o gyfanswm o tua 1,300.

## ATODIAD 11

### Awgrym o faes llafur ar gyfer cwrs hyfforddiant brys blwyddyn llawn amser

*Astudiaethau Arwain*
(a) Nodau a threfniadaeth y Gwasanaeth Ieuenctid a'i lle o fewn patrwm ehangach cymdeithas.
(b) Datblygiad patrymau gwaith grŵp oddi fewn i'r clybiau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau dros dro, grwpiau crefyddol, grwpiau ieuenctid a gychwynnwyd gan yr aelodau eu hunain a rhai sy'n trefnu eu rhaglenni eu hunain. Perthnasau cymdeithasol yn cynnwys y rheini oddi fewn i'r grŵp, gyda grwpiau ieuenctid eraill yn y gymdogaeth a'u perthynas â gangiau naturiol. Technegau trafodaethau grŵp. Cymorth a nawddogaeth ddymunol ac annymunol.
(c) Gweinyddiaeth a chyfrifo clwb a grŵp. Datganoli. Pwyllgorau fel hyfforddiant a phwyllgorau fel niwsans. Y frwydr rhwng y swyddfa a'r maes. Pwysigrwydd help gwirfoddol wrth weinyddu.
(d) Astudiaethau ysgrifenedig beirniadol o waith a nodau grwpiau a mudiadau ieuenctid.

*Gwaith Ymarferol*
(a) Profiad rheolaidd o arwain grŵp lleol dan arolygaeth tra o dan hyfforddiant.
(b) Ymweliadau grŵp â, a seminarau ar, grwpiau a gwersyll ieuenctid, llysoedd yr ifanc, cartrefi cadw, ysgolion sydd wedi'u cymeradwyo, sefydliadau diwydiannol, hosteli, cynlluniau hyfforddi i brentisiaid; rhywfaint o waith astudio call o'r ifanc mewn canolfannau lle mae'r ifanc yn ymgasglu megis neuaddau dawns neu far coffi.
(c) Gwersylla neu anturiaethau gyda neu heb bobl ifanc.

*Sgiliau Personol*

(a) Dymunir y byddai pob myfyriwr yn dysgu neu'n gwella sgil neu hobi – er enghraifft cerddoriaeth, drama, y celfyddydau, gwaith crefft, athletau, dringo, gwylio adar – ac y dylid eu hannog i ymarfer y sgil os yn bosib yn ei waith ymarferol.

(b) Syniad arall fyddai i bob myfyriwr ymgymryd â thasg bersonol arbennig yn ystod ei hyfforddiant gan ysgrifennu traethawd byr arno. Mae gwneud astudiaeth agos o faes cyfyng yn ystod yr hyfforddiant yn help i ddwyn sylw'r myfyriwr i ffwrdd o ormod o bethau haniaethol a phethau cyffredinol ac mae hefyd yn dysgu iddo weld gwerth y ddisgyblaeth o astudio'n bersonol.

*Astudiaethau Cefndirol*

Gellir dewis o'r canlynol:

(a) Seicoleg pobl ifanc.

(b) Lles corfforol pobl ifanc.

(c) Strwythur economaidd a chymdeithasol Prydain fodern.

(d) Hanes cymdeithasol Lloegr yn y 19eg a'r 20fed ganrif, gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar newidiadau teuluol a chymdogaeth.

(e) Y modd y mae patrwm diwylliannol cymdeithas wedi newid (cwrs fyddai'n cynnwys pynciau cymdeithasol cyfoes a'u dylanwad ar ieuenctid ac i'r gwrthwyneb; ffyrdd cyfoes o gyfathrebu – y wasg, ffilm, teledu, radio, llyfrau comig, llyfrau – a'r defnydd y mae pobl ifanc yn ei wneud o lyfrgelloedd; gwaith a'r cartref, rhyw, gwerthoedd crefyddol ac ati. Fe ddylid rhoi'r cyfle, yn arbennig os y defnyddir seminarau dysgu, i wneud gwaith gwahanol i'r astudiaethau seicolegol ystrydebol).

(f) Llenyddiaeth gyfoes: nid yn angenrheidiol ar ieuenctid, ond yn bendant i gynnwys gwaith cyfoes pwysig am ieuenctid.

(g) Iaith a llenyddiaeth Saesneg mewn modd mwy cyffredinol. (Mae pob prifysgol a choleg hyfforddi yn wynebu'r broblem o anllythrennedd rhai sydd wedi'u haddysgu – sydd heb amheuaeth yn ffactor wrth i'r ifanc fynd yn llai a llai huawdl.)

(h) Rhywfaint o astudio ar syniadau crefyddol, gwleidyddol ac athronyddol o wareiddiad y Gorllewin fel cefndir i gymdeithas fodern.

(i) Astudiaethau beirniadol o gyfraniadau'r gwyddorau cymdeithasol i'r astudiaeth o les yr ifanc. Pwysleisir y gair beirniadol.

(j) Sgyrsiau a thrafodaeth ar faterion cyfoes.